Gwasanaethau Awdurdodau Addysg Lleol yng Nghymru

Fframwaith ar gyfer arolygu dan Adran 38 Deddf Addysg 1997 ac Adran 51 Deddf Plant 2004

Estyn
Rhagoriaeth i bawb....Excellence for all
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:

- ysgolion a lleoliadau meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan, awdurdodau addysg lleol (AALlau);
- ysgolion cynradd;
- ysgolion uwchradd;
- ysgolion arbennig;
- unedau cyfeirio disgyblion;
- ysgolion annibynnol;
- addysg bellach;
- dysgu oedolion yn y gymuned;
- gwasanaethau cymorth ieuenctid;
- AALlau;
- addysg a hyfforddiant athrawon;
- dysgu yn y gwaith;
- cwmnïau gyrfaoedd; ac
- elfennau addysg, arweiniad a hyfforddiant y Ganolfan Byd Gwaith.

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill; ac
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygiadau.

Cymerwyd pob gofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gsi.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i'r Gymraeg)

Ⓗ **Hawlfraint y Goron 2006: Gellir defnyddio'r ddogfen/cyhoeddiad hwn am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen/cyhoeddiad.**

Cynnwys

Rhan 1	**Cyflwyniad**	1
	Y cefndir a'r sail statudol ar gyfer arolygu	1
	Diben arolygu	4
	Egwyddorion arolygu	5
Rhan 2	**Cynnal arolygiadau**	6
	Y rhaglen arolygu	6
	Pwy fydd yn cynnal yr arolygiad?	8
	Barnau arolygu	11
	Adroddiadau a chynlluniau gweithredu	13
	Defnyddio'r Gymraeg	14
	Sicrhau ansawdd arolygiadau	15
	Sut bydd arolygwyr yn ymddwyn	15
	Datgelu gwybodaeth	18
Rhan 3	**Y broses arolygu**	20
	Camau arolygiad unigol	20
Rhan 4	**Amserlen arolygu**	25
	Stwythur yr adroddiad	25
	1 Cyd-destun	25
	2 Crynodeb	26
	3 Argymhellion	26
	4 Canfyddiadau	27
	5 Ymateb yr awdurdod i ganfyddiadau'r adroddiad	30
	6 Proffil o'r graddau arolygu	31
	7 Cyfansoddiad y tîm arolygu	36
Atodiad 1	**Meini prawf arolygu**	

Rhan 1: Cyflwyniad

Y cefndir a'r sail statudol ar gyfer arolygu

Arolygiaeth Addysg a Hyfforddiant Ei Mawrhydi yng Nghymru yw Estyn.

Amcanion Estyn yw:

- cyflawni arolygiadau ansawdd uchel o ddarparwyr addysg a hyfforddiant unigol, a gwasanaethau cysylltiedig yng Nghymru; a
- rhoi cyngor annibynnol a chadarn, ar sail tystiolaeth arolygiadau, i ddylanwadu ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru wrth ffurfio ac arfarnu polisïau addysg a hyfforddiant.

Wrth gyflawni'r uchod bwriadwn:

- ddarparu gwasanaeth effeithlon ac effeithiol a gydnabyddir gan bawb am ei degwch, ei integredd a'i wrthrychedd;
- ceisio sicrhau rhagoriaeth a gwelliant i'r holl ddysgwyr yng Nghymru;
- hyrwyddo arfer dda;
- bod yn rhagweithiol wrth adolygu a datblygu trefniadau arolygu a dulliau gweithio;
- bod yn agored, yn allblyg a gweithio'n agos â phob un o'n partneriaid;
- trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal yn unol â'n cynllun iaith Gymraeg;
- ceisio sicrhau gwelliant parhaus yn ein cyfathrebu; a
- galluogi ein staff i ffynnu a rhoi o'u gorau drwy ddysgu a datblygiad cyfundrefnol ac unigol.

Mae datblygiad y fframwaith hwn yn adlewyrchu, ac yn rhan o fodel o arolygiadau awdurdodau lleol yng Nghymru sydd wedi datblygu a newid dros amser. Dylanwadwyd ar y model hwn yn y lle cyntaf gan Ddeddf Llywodraeth Leol 1999 ac arweiniad cysylltiedig ar arolygu, a gyhoeddwyd fel 'Arolygiadau Gwerth Gorau yng Nghymru'[1]. Mae'r model yn ystyried y ffaith bod gwasanaethau addysg yn ffurfio rhan o sefydliad ehangach, yr awdurdod lleol, y mae ei wasanaethau'n cael eu harchwilio allanol gan nifer o reoleiddwyr ac arolygiaethau gwahanol. O'i gychwyn yn 2001, mae ymagwedd Estyn at arolygu gwasanaethau awdurdodau lleol dan Adran 38 Deddf Addysg 1997 wedi rhoi cryn bwyslais ar gydweithredu a chydweithio â darparwyr y gwasanaethau hynny, yr awdurdodau addysg lleol. Mae'r ymagwedd hon yn

[1] Y Comisiwn Archwilio, Gorffennaf 2000

adlewyrchu gwerthoedd corfforaethol Estyn, sy'n cynnwys ymgynghori, cydweithredu a chydweithio agos â'i bartneriaid a rhan-ddeiliaid eraill.

Bydd Estyn yn defnyddio'r fframwaith hwn fel y sail ar gyfer yr holl arolygiadau o wasanaethau awdurdodau addysg lleol o dan Adran 38 Deddf Addysg 1997 (fel a ddiwygiwyd gan ddeddfwriaeth ddilynol) o Ebrill 2006 ymlaen. Mae'n debygol y bydd angen diwygio'r fframwaith hwn ymhell cyn diwedd y cylch arolygu AALlau newydd, yn enwedig i ddarparu ar gyfer newidiadau disgwyliedig mewn rheolaeth strategol a chyflwyno gweithredol gwasanaethau plant awdurdodau lleol. Mae Estyn eisoes yn cydweithio'n agos gydag Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ar arolygiadau o wasanaethau awdurdodau lleol lle mae gan y ddwy arolygiaeth gyd-ddiddordeb. Mae'n debygol, yn y tymor canolig, y bydd angen ymestyn y cydweithrediad hwn ymhellach. Rywbryd yn y dyfodol, hwyrach y bydd angen ystyried a yw'r patrwm cyflwyno gwasanaethau plant mewn un neu fwy o awdurdodau lleol yng Nghymru'n golygu y dylai'r gwasanaethau hyn gael eu harolygu ar y cyd gan Estyn ac AGCC trwy ddefnyddio fframwaith arolygu cyffredin. Hwyrach y bydd angen ystyried hefyd a ddylai arolygu'r gwasanaethau hyn gynnwys Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC).

Ym mis Rhagfyr 2005, cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru arweiniad newydd i awdurdodau lleol yng Nghymru[2] o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1999, fel a ddiwygiwyd gan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Mae'r arweiniad yn datblygu ymhellach Raglen Cymru ar gyfer Gwella (RhGC) fel y fframwaith ar gyfer gwella gwasanaethau cyhoeddus lleol yng Nghymru. Mae RhGC yn gofyn am ymagwedd wahanol a mwy hyblyg gan awdurdodau lleol a chan y rhai sy'n eu harolygu, eu harchwilio a'u rheoleiddio. Dan RhGC, mae rheoliadau yn fwyfwy cymesur â risg gan y gweithredir ar ganlyniadau'r asesiad risg.

Mae Estyn yn aelod o Fwrdd Gwelliant Cymru a'i Is-grŵp Arolygu, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o bob un o'r arolygiaethau sy'n gyfrifol am arolygu awdurdodau yng Nghymru. Mae Estyn wedi cytuno gyda Bwrdd Gwelliant Cymru y bydd arolygiadau o awdurdodau addysg lleol a gynhelir dan Adran 38 Deddf Addysg 1997 a Deddf Plant 2004 yn cydymffurfio â gofynion Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella, fel y'i nodir yn yr arweiniad statudol. Yn benodol, bydd Estyn yn cyfrannu at yr asesiad risg ar gyfer pob awdurdod lleol. Mae'r cylchlythyr arweiniad yn esbonio y bydd rhaglen Estyn o arolygiadau wedi'u cynllunio yn cael ei hadolygu a'i haddasu yng ngolau canlyniadau'r broses asesu risg.

O fewn y pedair blynedd diwethaf, mae Estyn wedi cyflwyno fframwaith cyffredin ar gyfer rhan fwyaf y darparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru o fis Medi 2004. Gan fod gan y fframwaith arolygu cyffredin ffocws uniongyrchol ar ddysgwyr, ni fu modd cymhwyso'r fframwaith i arolygiadau AALl yn unig. Fodd bynnag, ymgorfforir nifer o nodweddion pwysig y trefniadau arolygu sy'n gysylltiedig â defnyddio'r fframwaith arolygu cyffredin i arolygiadau o awdurdodau lleol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- ffocws cryf ar hunanarfarniad yr awdurdod lleol ei hun;

[2] Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella: Canllaw i Awdurdodau Lleol 2005 (Cylchlythyr 28/2005)

- cynnwys enwebai ym mhob tîm arolygu;

- arfarnu cymheiriaid;

- arolygiadau gwahaniaethol yn seiliedig ar y risg a gyflwynir gan yr awdurdod lleol; a

- chynnwys ymateb gan yr awdurdod lleol fel rhan o'r adroddiad.

Y sail statudol ar gyfer arolygu AALl

Cynhelir arolygiadau o awdurdodau addysg lleol o dan Adran 38 Deddf Addysg 1997 sy'n darparu 'y gall Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru (PAEM) drefnu i unrhyw awdurdod lleol gael ei arolygu ac, os gofynnir iddi wneud hynny gan yr Ysgrifennydd Gwladol, bydd yn gwneud hynny'. Bydd arolygiad o'r fath 'yn cynnwys adolygiad o'r ffordd y mae'r awdurdod yn cyflawni unrhyw swyddogaeth…sy'n ymwneud â darparu addysg i (a) bobl o oed ysgol gorfodol (boed yn yr ysgol neu fel arall) neu (b) i bobl o unrhyw oed sydd dros neu o dan yr oed hwnnw sydd wedi'u cofrestru fel disgyblion mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod'. Mae agweddau eraill ar ddarpariaeth awdurdod lleol yn cael eu harolygu o dan ystod o ddeddfwriaeth, gan gynnwys Deddf Dysgu a Sgiliau 2000. Bydd arolygiadau o agweddau eraill ar waith awdurdod lleol yn cael eu newid i ystyried cychwyn Deddf Plant 2004. Mae Deddf Plant 2004 yn cyflwyno dyletswydd ar awdurdodau lleol a'u partneriaid i gydweithredu i wella lles plant.

Lle mae awdurdodau addysg lleol yn y cwestiwn, rhoddir y pwerau i Estyn adolygu swyddogaethau'r AALl mewn perthynas ag Adran 51 y Ddeddf, sef cydweithredu i wella lles a chynhyrchu cynlluniau plant a phobl ifanc lle'r mae'r swyddogaethau hyn yn gysylltiedig ag addysg, hyfforddiant neu wasanaethau cymorth ieuenctid.

Mae Adran 51 Deddf Plant 2004 yn newid adran 38 Deddf Addysg 1997 fel y bydd "Arolygiad o awdurdod addysg lleol yng Nghymru o dan yr adran hon yn cynnwys adolygiad o'r modd y mae'r awdurdod yn cyflawni:

(a) unrhyw swyddogaeth a bennwyd iddo yn ei rinwedd fel awdurdod addysg lleol; a'r

(b) swyddogaethau a bennwyd iddo dan adrannau 25 a 26 cyn belled â'u bod yn ymwneud ag addysg, hyfforddiant neu wasanaethau cymorth ieuenctid (o fewn ystyr adran 123 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000)."

Bydd arolygiadau awdurdodau addysg lleol yn cael eu cynnal gan Arolygwyr Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant (AEM) yng Nghymru. Mae'n bosibl y bydd arolygwyr ychwanegol (AY) sydd wedi'u hawdurdodi o dan baragraff 2 Atodlen 1 Deddf Arolygiadau Ysgolion 1996 yn ymuno ag AEM. Gall PAEM, dan Adran 41 Deddf Addysg 1997, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, wneud cais i Swyddfa Archwilio Cymru gynorthwyo ag unrhyw arolygiad o dan Adran 38. Mae PAEM a Swyddfa Archwilio Cymru wedi cytuno:

- y bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn cyfrannu at yr arolygiadau hynny o awdurdodau lleol lle y bydd eu harbenigedd yn ychwanegu at drylwyredd ac effeithiolrwydd yr arolygiad;

- y bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn cyfrannu at y gwaith rheolaidd o gasglu a dadansoddi data perfformiad awdurdodau lleol; ac

- fel partneriaid wrth arolygu awdurdodau lleol, y gall Swyddfa Archwilio Cymru ac Estyn ddefnyddio adroddiadau arolygu awdurdodau lleol i gynhyrchu adroddiadau, arolygon ac astudiaethau eraill.

Mae Cylchlythyr 18/2005 yn datblygu ymhellach gysyniad Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella (RhCG) fel y fframwaith ar gyfer gwella gwasanaethau cyhoeddus lleol yng Nghymru. Mae'r arweiniad yn disodli Cylchlythyr 18/2002 a'r arweiniad blaenorol ar Werth Gorau. Mae'n galluogi Estyn i adeiladu ar, a datblygu ymhellach, yr ymagwedd gydweithrediadol a sefydlwyd o dan RhCG.

Diben arolygu

Prif swyddogaethau arolygiadau awdurdodau lleol yw:

- gweithio fel catalydd ar gyfer gwelliant; a

- rhoi sicrwydd i Weinidogion a'r cyhoedd ynghylch safon gwasanaethau awdurdodau lleol;

Mae natur ac ystod gwelliannau sy'n deillio o hunanarfarniadau awdurdodau lleol o'u swyddogaethau a'u gwasanaethau yn amrywio'n helaeth, ac yn adlewyrchu amrywiaeth agendâu gwleidyddol lleol, yr awdurdodau a'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Bydd gan yr awdurdodau gorau ddyheadau clir ar gyfer y ffordd y dymunant i'w cymuned a'u gwasanaethau lleol wella, a byddant wedi dangos yr arweinyddiaeth a'r gallu sy'n ofynnol i gyflawni'r gwelliannau hyn. Bydd pobl leol yn cefnogi cynlluniau awdurdodau ar gyfer gwelliant a'r modd y darperir gwasanaethau. Lle mae'r llywodraeth wedi gosod safonau neu ddyletswyddau clir, rhoddir sylw iddynt mewn strategaethau lleol.

Yn aml, bydd canlyniadau adolygiadau hunanarfarnu'n gofyn cwestiynau anodd i wleidyddion lleol. Caiff awdurdod sy'n newid ei system wleidyddol bod arolygu'n ei helpu i ddarparu her allanol effeithiol. Bydd pob adroddiad arolygu'n cynnig argymhellion ymarferol ar gyfer gwelliant.

Bydd arolygiadau'n nodi ac yn hyrwyddo arfer dda. Bydd pob arolygiad yn edrych am enghreifftiau o arfer dda ac arloesedd, ac am ffyrdd creadigol o oresgyn rhwystrau a gwrthwynebiad i newid neu i ddefnyddio adnoddau'n well. Bydd Estyn yn gweithio'n agos â sefydliadau eraill fel Swyddfa Archwilio Cymru sy'n gysylltiedig â chynorthwyo gwelliant, er mwyn sicrhau cydlynu'n dda y gwaith o gasglu a lledaenu arfer orau.

Egwyddorion arolygu

Mewn perthynas ag arolygiadau o awdurdodau addysg lleol bydd Estyn:

- yn sicrhau bod arolygiadau o ansawdd uchel ac yn ymateb i anghenion pob defnyddiwr gwasanaeth;
- yn cynnwys awdurdodau lleol yn llawn yn y broses arolygu drwy wahodd yr awdurdod lleol i enwebu aelod o staff (yr enwebai) i weithio gyda'r tîm arolygu;
- yn cysylltu arolygiadau â Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella, hunanarfarniad yr awdurdod lleol a chynllun rheoleiddio sy'n gymesur â risg ac yn hydrin;
- lle bynnag y bo modd, yn ymgorffori elfen o arfarnu cymheiriaid yn y broses arolygu;
- cadw i leiafswm unrhyw ofynion ar gyfer dogfennaeth a gwaith paratoi, a cheisio cydlynu gweithgarwch arolygu gyda rheoleiddwyr ac arolygiaethau eraill;
- ymgynghori a chytuno ar raglen arolygu addas;
- cymhwyso egwyddor cydraddoldeb y Gymraeg a'r Saesneg i'n holl waith arolygu, gan ddarparu gwasanaethau dwyieithog pa bryd bynnag y byddant yn briodol; a
- defnyddio'r fframwaith yn deg ac yn gyson ar draws yr holl awdurdodau lleol.

Rhan 2: Cynnal arolygiadau

Y rhaglen arolygu

Nod Estyn yw gwneud arolygiadau awdurdodau lleol yn fwy hyblyg nag y maent ar hyn o bryd. Rhown fwy o ystyriaeth i brosesau cynllunio awdurdodau lleol wrth drefnu arolygiadau. Rydym yn gwneud arolygiadau'n fwy hyblyg ac ymatebol, er mwyn iddynt gysylltu'n fwy effeithiol â chynlluniau a systemau cynllunio'r awdurdod. Mae'r rhaglen arolygu'n cysylltu'n agosach â'r gwaith a wneir dan Raglen Cymru ar gyfer Gwella. Yn benodol, mae'n ystyried canlyniadau'r asesiadau risg.

Mae pob awdurdod lleol yng Nghymru yn awdurdod unedol sy'n cyflawni swyddogaethau awdurdod addysg lleol (AALl).

Mewn trafodaeth ag Estyn, mae awdurdodau lleol yn gallu dewis arolygiad o ystod cyfan eu gwaith adran 38, neu arolygiad ar wahân ar gyfer eu prif feysydd cyfrifoldeb.

Mae'r amserlen ar gyfer arolygu'n cwmpasu cyfnod cyfan y cylch arolygu chwe blynedd. Yn ystod y cylch hwn, bydd y rhan fwyaf os nad y cyfan o feysydd gweithgarwch yr awdurdod lleol yn cael eu harolygu. Mae'r cylch chwe blynedd ar gyfer arolygu awdurdodau lleol yn caniatáu ar gyfer cyfnodau gwahaniaethol o amser er mwyn adlewyrchu risg a'r ystod o waith arolygu sydd i'w wneud..

Bydd ehangder a natur arolygiad yn adlewyrchu ansawdd perfformiad gan yr awdurdod lleol. O fewn y meysydd cyfrifoldeb amrywiol, bydd Estyn yn canolbwyntio'i adnoddau ar y meysydd risg mwyaf. Mae asesiad risg yn pennu nifer y diwrnodau arolygydd a ddyrennir. Bydd yr asesiad risg yn cysylltu'n agos â Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella.

Ar gyfer pob awdurdod lleol, mae tri dimensiwn a fydd yn pennu natur y rhaglen arolygu:

- cwmpas arolygiad unigol, hynny yw, ystod y gwasanaethau sy'n cael eu harolygu – yr holl feysydd cyfrifoldeb, un maes, neu gyfuniad o feysydd;
- amseru arolygiadau; a
- graddfa'r arolygiad yn seiliedig ar risg.

Ar gyfer y dimensiwn cyntaf, bydd arolygiadau mewn un o dri chategori:

- Arolygiad llawn – arolygu'r holl brif feysydd cyfrifoldeb mewn un arolygiad;
- Arolygiad o gyfuniad o feysydd – arolygu dau neu fwy o brif feysydd cyfrifoldeb mewn un arolygiad; neu
- Arolygiad o faes unigol - arolygu un prif faes cyfrifoldeb mewn arolygiad unigol (ni fydd y maes unigol yn wasanaethau cymorth nac yn rheolaeth strategol).

Ar gyfer yr ail ddimensiwn, bydd awdurdodau lleol yn cynnig brasamcan o ddyddiad ar gyfer arolygiad a bydd Estyn yn cadarnhau neu'n newid yn ôl yr angen mewn ymgynghoriad â'r awdurdod lleol a rheoleiddwyr eraill os yw'n briodol.

Ar gyfer y trydydd dimensiwn, caiff arolygiadau eu disgrifio'n unol â'r termau a ddefnyddir yn Nhempled Asesiad Risg Cryno Swyddfa Archwilio Cymru (RAT), hynny yw:

- risg uchel;
- risg ganolig; neu
- risg isel.

Efallai y bydd gan awdurdodau lleol ystod o ymagweddau at bennu **cwmpas** ac **amseru** arolygiadau yn eu rhaglen. Gall y dulliau hyn gynnwys:

- cael arolygiad cynnar i gadarnhau eu harfarniad eu hunain o ble mae angen gwelliant;
- ceisio sicrhau gwelliannau cyn arolygiad;
- cael cyfnod dwys o arolygu a fyddai'n rhyddhau amser cyn neu wedi hynny i ganolbwyntio ar faterion eraill; a
- chael arolygiadau cyson yn ystod y cyfnod.

Mae **graddfa** arolygiadau yn seiliedig ar yr asesiad risg sydd wedi ystyried hunanarfarniad yr AALl, perfformiad mewn arolygiadau blaenorol a nifer o ddangosyddion perfformiad allweddol. Fel arfer byddai Estyn yn disgwyl i AALlau fod wedi rhoi rhywfaint o ystyriaeth i ddyraniad risg wrth gynnig eu rhaglen arolygu, ond gall fod ffactorau eraill sy'n drech nag ystyriaeth risg yn unig. Os oes anghytundeb ynghylch dyraniad risg, yna Estyn sy'n gwneud y penderfyniad terfynol.

Cafodd yr asesiad risg yn 2005 ei ddefnyddio i helpu AALlau gynllunio'u hymagwedd tuag at y rhaglen arolygu ar gyfer y cyfnod 2006-2012. Defnyddiwyd yr asesiad risg i bennu graddfa arolygiadau a faint o amser a oedd yn cael ei ddyrannu i unrhyw arolygiad Adran 38 a gytunwyd ar gyfer 2006-2007. Yn yr un modd, dylanwadodd yr asesiad risg ar y trefniadau arolygu ar gyfer blynyddoedd dilynol, er nad oedd gan y rhaglen gytunedig ar gyfer y blynyddoedd hyn yr un lefel o fanylder yn wreiddiol â'r rhaglen ar gyfer 2006-2007. Ni ragwelwyd y byddai unrhyw angen fel arfer i newid y rhaglen chwe blynedd wedi iddi gael ei chytuno yn 2005, ond caiff ei hadolygu'n flynyddol ac, os oes angen, caiff ei newid yng ngolau unrhyw newidiadau pwysig mewn amgylchiadau.

Mae meysydd eraill penodol o ddarpariaeth awdurdodau lleol, gan gynnwys dysgu oedolion yn y gymuned, yn cael eu harolygu dan ddeddfwriaeth ar wahân, ac nid ydynt yn dod o dan gwmpas y fframwaith hwn. Fodd bynnag, bydd canfyddiadau arolygiadau yn y meysydd eraill hyn yn cael eu hystyried wrth lunio barn gytbwys

ynghylch gwaith yr awdurdod lleol dan Adran 38 Deddf Addysg 1997 a Deddf Plant 2004.

Bydd PAEM yn cadw'r hawl, lle mae amgylchiadau'n cyfiawnhau hynny, i bennu'r math o arolygiad sydd i'w gynnal mewn unrhyw AALl, hyd yn oes os yw hwn yn wahanol i'r math o arolygiad a fyddai fel arfer yn deillio o'r asesiad risg.

Gall y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes, ar unrhyw bwynt, wneud cais i PAEM drefnu arolygiad o unrhyw awdurdod lleol dan Adran 38 Deddf Addysg 1997. Gall arolygiad o'r fath ei gwneud yn ofynnol i Estyn amrywio unrhyw drefniadau a wnaed yn flaenorol mewn cytundeb â'r awdurdod lleol, yn arbennig y rheiny'n ymwneud ag amseru a ffocws yr arolygiad.

Pwy fydd yn cynnal yr arolygiad?

Cyfansoddiad y tîm

Bydd Estyn yn penderfynu ar gyfansoddiad pob tîm arolygu drwy ymgynghori â Swyddfa Archwilio Cymru ac arolygiaethau eraill pan fydd yn briodol. Mae maint a gwybodaeth arbenigol y tîm arolygu yn adlewyrchu mor agos â phosibl natur y gwasanaeth(au) sy'n cael ei arolygu/eu harolygu.

Caiff arolygiadau AALl gymorth gan arolygydd o staff Swyddfa Archwilio Cymru neu gan arolygydd addysg arbenigol o'r Comisiwn Archwilio yn Lloegr, yn gweithio ar ran Swyddfa Archwilio Cymru. Mewn rhai arolygiadau, bydd y tîm yn cael cymorth arolygydd o arolygiaethau eraill fel Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGCC).

Gydol y ddogfen hon, mae'r term 'arolygwyr' yn cyfeirio at unrhyw bersonau sy'n gysylltiedig ag Estyn neu a ddefnyddir gan Estyn fel aelodau o'i dimau arolygu awdurdodau lleol.

Bydd arolygydd cofnodol (ACo) yn arwain y tîm arolygu. Yr Arolygydd Ardal ar gyfer yr awdurdod fydd hwn fel arfer.

Caiff yr amserlen arolygu ei chytuno ar gyfer pob awdurdod dros y cylch arolygu chwe blynedd. Felly bydd yr ACo yn gwybod:

- pa brif feysydd cyfrifoldeb y bydd y tîm yn arolygu bob blwyddyn yn ei awdurdod/hawdurdod lleol;
- y risg a ddyrannwyd i'r arolygiad;
- pwy sydd yn y tîm arolygu;
- y dyddiadau a bennwyd ar gyfer pob arolygiad; ac
- unrhyw ffactorau arbennig y mae angen i'r tîm eu hystyried yn ystod yr arolygiad.

Aseswyr cymheiriaid

Fel menter newydd ar gyfer y cylch arolygu chwe blynedd hwn, nod Estyn yw datblygu'r defnydd o aseswyr cymheiriaid fel arolygwyr ychwanegol. Aelod etholedig neu uwch swyddog mewn awdurdod lleol yng Nghymru yw asesydd cymheiriaid. Bydd aseswyr cymheiriaid yn dod â phersbectif arferion gweithio cyfredol mewn awdurdod lleol. Byddant wedi'u henwebu gan yr awdurdodau y maent yn gweithio iddynt. Bydd angen i'r asesydd cymheiriaid fodloni meini prawf penodol a chwblhau rhaglen hyfforddi'n llwyddiannus.

Mae'r asesydd cymheiriaid yn aelod llawn o'r tîm, ond bydd yn cyflawni'r dyletswyddau hynny'n unig y gellir eu cyflawni yn ystod cyfnod yr arolygiad ar y safle. Bydd yn ofynnol i aseswyr cymheiriaid, yr awdurdod lleol ac Estyn arwyddo memorandwm o ddealltwriaeth sy'n pennu'r telerau a'r amodau y byddant yn gweithio'n unol â nhw fel arolygwyr ychwanegol. Bydd y memorandwm yn cynnwys telerau ac amodau sy'n rheoli'u hymddygiad mewn perthynas â'r arolygiad cyn, yn ystod ac ar ôl y cyfnod ar y safle. Bydd y datblygiad hwn yn cael ei adolygu ac efallai y caiff ei newid yn ystod y cylch arolygu.

Dylai'r asesydd cymheiriaid:

- fod â gwybodaeth weithio dda am y Fframwaith ar gyfer Arolygu Gwasanaethau AALl a'r Arweiniad perthnasol ar gyfer Arolygu AALlau;
- deall adroddiad hunanarfarnu'r AALl ac unrhyw gynllun cysylltiedig;
- cysylltu â'r arolygydd cofnodol ynghylch agweddau gweinyddol ar yr arolygiad, fel dogfennau a chyfarfodydd;
- cwblhau dogfennau arolygu, gan gynnwys 'taflenni materion';
- cyfrannu at gyfarfodydd y tîm arolygu;
- cyfrannu at farnau corfforaethol;
- lle bydd modd, mynychu unrhyw gyfarfod a gynhelir yn ystod wythnos yr arolygiad lle rhoddir adborth i'r AALl; a
- pharchu cyfrinachedd yr holl wybodaeth a dderbynnir yn ystod yr arolygiad.

Enwebeion

Bydd arolygiadau'n cynnig cyfle i awdurdodau lleol gael cyswllt gweithredol â'r broses arolygu drwy alluogi swyddog o'r awdurdod i weithio gyda'r tîm arolygu – yr enwebai. Bydd hyn yn sicrhau mwy o gysylltiad ar ran yr awdurdod ac yn cryfhau'r bartneriaeth rhwng y tîm arolygu a staff yr awdurdod. Hefyd, bydd yn galluogi'r awdurdod i gael mewnwelediad gwell i'r broses arolygu yn ogystal â chynnig cyfleoedd gwerthfawr ar gyfer datblygiad proffesiynol. Caiff cwmpas rôl yr enwebai ei gyd-drafod rhwng yr awdurdod ac Estyn. Bydd yn ofynnol i'r awdurdod lleol, yr enwebai ac Estyn arwyddo datganiad o gytundeb sy'n pennu rôl a dyletswyddau'r enwebai. Nid yw'n ofyniad bod yr awdurdod yn cynnig enwebai.

Dylai'r enwebai:

- sicrhau bod arolygwyr yn cael gwybodaeth lawn am gyd-destun gwaith yr awdurdod lleol;
- cysylltu â'r arolygydd cofnodol ynghylch agweddau gweinyddol ar yr arolygiad;
- cymryd rhan mewn cyfarfodydd tîm;
- ymateb i geisiadau tîm am wybodaeth ychwanegol;
- helpu datrys unrhyw broblemau sy'n codi;
- bod yn gysylltiedig â chasglu tystiolaeth, lle mae hynny'n briodol a lle cytunir ar hynny; a
- chlywed canfyddiadau sy'n ymddangos.

Cysylltiad Rheolwr Perthynas yr awdurdod lleol

Gall Estyn sicrhau cyswllt Rheolwr Perthynas yr awdurdod lleol yng ngwaith y tîm arolygu i ddarparu gwybodaeth fanwl am y materion corfforaethol a gwasanaeth hynny sy'n berthnasol i gwmpas yr arolygiad.

Barnau arolygu

Bydd pob tîm arolygu yn llunio dwy farn allweddol. Y rhain yw:

(i) Pa mor dda yw perfformiad yr awdurdod lleol?

Bydd perfformiad yr awdurdod lleol wrth gyflawni ei ddyletswyddau yn cael ei raddio ar raddfa pedwar pwynt fel a ganlyn:

Gradd 1 – da gyda nodweddion rhagorol (***)

Gradd 2 – nodweddion da a dim diffygion pwysig (**)

Gradd 3 – nodweddion da yn gorbwyso diffygion (*)

Gradd 4 – diffygion mewn meysydd pwysig

Bydd perfformiad yr awdurdod lleol yn cael ei arfarnu yn unol â'r adrannau perthnasol o feini prawf arolygu a gynhwysir yn Atodiad 1 i'r fframwaith hwn. Meini prawf hunanarfarnu awdurdod lleol yw'r rhain a ddatblygwyd, a gytunwyd ac a gyhoeddwyd ar y cyd gan Estyn, Swyddfa Archwilio Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (ADEW).

Bydd y meini prawf yn cael eu cyhoeddi'n llawn ar wefan Estyn. Efallai y bydd awdurdodau lleol yn dymuno defnyddio'r meini prawf hyn ar y cyd â'r pedwar cwestiwn allweddol a nodir ar tudalen 12 i gyfarwyddo'u hunanarfarniadau o wasanaethau.

(ii) A fydd perfformiad yr awdurdod lleol yn gwella?

Caiff y rhagolygon gwella eu graddio ar raddfa pedwar pwynt:

Gradd 1 – rhagolygon gwella yn dda, gyda gwelliannau arwyddocaol eisoes yn eu lle

Gradd 2 – rhagolygon ar gyfer gwella yn dda, heb unrhyw rwystrau mawr

Gradd 3 – rhai rhagolygon da, ond rhwystrau mewn meysydd pwysig

Gradd 4 – llawer o rwystrau pwysig i welliant

Caiff y rhagolygon gwella eu harfarnu yn ôl y graddau y mae'r nodweddion canlynol yn eu lle mewn perthynas â'r maes cyfrifoldeb dan sylw:

- arweinyddiaeth sydd â'r gallu i wneud gwelliannau a gweithredu cynlluniau;
- hanes o reoli newid yn llwyddiannus;
- partneriaeth gadarn â rhan-ddeiliaid, yn enwedig ysgolion;
- blaenoriaethau priodol a thargedau heriol ar gyfer gwella;
- cynlluniau ymarferol a chydlynol ar gyfer cyrraedd targedau;
- adnoddau a ddyrennir yn briodol mewn perthynas â blaenoriaethau;
- aelodau etholedig sydd wedi ymrwymo i welliannau ac sy'n gwybod beth y mae angen ei wneud i'w cyflawni; a
- systemau priodol i adolygu cynnydd, nodi gwendidau a chymryd camau effeithiol i'w hunioni.

Lle mae cwmpas yr arolygiad yn cynnwys ystod o brif feysydd cyfrifoldeb, rhoddir graddau ar wahân ar gyfer pob maes.

Er mwyn dod i gasgliadau ynghylch y ddwy farn, bydd arolygwyr yn casglu tystiolaeth i ateb pedwar cwestiwn allweddol.

Y pedwar cwestiwn allweddol yw:

1. Pa mor effeithiol yw cynllunio strategol yr awdurdod?

2. Pa mor effeithiol yw'r gwasanaethau a sut mae perfformiad yn cymharu, gan gynnwys gwerth am arian?

3. Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth strategol?

4. Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr, ar bob lefel, yn monitro, yn arfarnu ac yn gwella gwasanaethau?

Mae Rhan 4 o'r ddogfen hon yn rhoi mwy o fanylion am y ddwy farn allweddol a'r pedwar cwestiwn allweddol.

Gall canfyddiadau arolygiadau a gynhelir dan Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000 ac Adran 51 Deddf Plant 2004 gyfrannu at raddau arolygiadau Adran 38. Yn yr un modd, gall yr arolygiadau hyn ystyried canfyddiadau arolygiadau a gynhaliwyd dan Ddeddf Addysg 1997.

Bydd pob arolygiad yn ystod y cyfnod chwe blynedd yn defnyddio hunanarfarniad yr awdurdod lleol fel ei fan cychwyn.

Yn ystod cyfnod y cylch arolygu, bydd Estyn yn cwblhau proffil ar gyfer pob awdurdod lleol yn cofnodi'r barnau am berfformiad cyffredinol yr awdurdod a pherfformiad yr awdurdod yn y prif feysydd cyfrifoldeb unigol. Felly, erbyn diwedd y rhaglen arolygu chwe blynedd, fe fydd, ar gyfer pob arolygiad ac ar gyfer yr awdurdod cyffredinol:

- graddau ar gyfer y cwestiynau: 'pa mor dda yw perfformiad yr awdurdod lleol?' ac 'a fydd perfformiad yr awdurdod lleol yn gwella?'; a

- graddau ar gyfer perfformiad yn y prif feysydd cyfrifoldeb.

Bydd y graddau a ddyfernir yn ystod camau amrywiol y cylch chwe blynedd yn cyfrannu at y proffil cyffredinol a fydd yn cael ei gwblhau erbyn diwedd y cylch. Bydd yr ymagwedd hon yn sicrhau y caiff pob AALl ei drin yn gyfartal o ran barnau a wneir, ac ni fydd yn rhoi mantais nac anfantais i awdurdodau sydd wedi gofyn am ymagweddau gwahanol i raglennu arolygiadau. Hefyd, bydd y proffil datblygol yn darparu erfyn defnyddiol i'w ddefnyddio yng nghyd-asesiad risg blynyddol RhCG, yn ymwneud â'r awdurdod lleol a'r rheoleiddwyr.

Ni ragwelir y bydd Estyn, fel rheol, yn cynnal ailarolygiad, er enghraifft, o wasanaeth y dyfernir gradd isel iddo. Fodd bynnag, mewn amgylchiadau penodol, gall Estyn gytuno i ailymweld â meysydd gwasanaeth neu ystyried tystiolaeth gadarn, wedi'i hategu'n dda o welliant dros amser wrth gwblhau'r proffil terfynol. Mewn amgylchiadau arferol, rhaid gallu cyflawni unrhyw weithgarwch felly o fewn yr adnodd arolygu a ddyrennir i'r awdurdod lleol ar ddechrau'r rhaglen.

Mae Rhan 3 o'r ddogfen hon yn disgrifio'r modd y bydd y rhaglen o arolygiadau AALl yn cael ei datblygu a'r modd y cynhelir arolygiadau. Mae Rhan 4 yn nodi cwmpas yr arolygiadau a strwythur cyffredinol adroddiadau arolygu ar ansawdd ac effeithiolrwydd yr awdurdod lleol.

Adroddiadau a chynlluniau gweithredu

O ganlyniad i bob arolygiad o dan arweiniad Estyn cyhoeddir adroddiad a chynllun gweithredu yn unol â Rheoliadau Addysg (Cyhoeddi Adroddiadau Arolygiadau Awdurdodau Lleol) 1998.

Bydd yr adroddiad:

- yn rhoi dwy farn allweddol, a fynegir fel graddau ar gyfer pob prif faes gwasanaeth a arolygwyd;
- yn arfarnu'r awdurdod lleol mewn perthynas â'r pedwar cwestiwn allweddol;
- yn nodi nodweddion da a diffygion yng ngwaith yr awdurdod lleol yn y meysydd sy'n cael eu harolygu; ac
- yn darparu argymhellion a fydd yn helpu'r awdurdod lleol i wella'i berfformiad.

Bydd adroddiadau arolygu yn dilyn y strwythur canlynol:

- Cynnwys;
- Cyd-destun;
- Crynodeb;
- Argymhellion;
- Canfyddiadau (ar gyfer pob maes a arolygir);
- Ymateb yr awdurdod i ganfyddiadau'r adroddiad;
- Proffil graddio; a
- Cyfansoddiad y tîm arolygu.

Yn unol ag adran 39(4) Deddf Addysg 1997, mae PAEM wedi penderfynu y caiff pob adroddiad am arolygiadau awdurdodau lleol eu cyhoeddi gan Estyn a chopïau'n cael eu rhoi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk). Efallai y bydd Swyddfa Archwilio Cymru a'r Comisiwn Archwilio yn Lloegr am osod yr adroddiad ar eu gwefan ar ôl ei gyhoeddi. Bydd Estyn yn cynghori'r awdurdod lleol a Chynulliad Cenedlaethol Cymru am y dyddiad cyhoeddi o leiaf bum niwrnod gwaith cyn cyhoeddi'r adroddiad. Bydd Estyn yn anfon copi o'r adroddiad at yr awdurdod lleol drwy'r post ac ar yr e-bost i gyrraedd o leiaf 24 awr cyn ei gyhoeddi. Caiff copïau o'r adroddiad eu hanfon at

Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru. Mae gan yr awdurdod lleol ddyletswydd i ddarparu copïau'n lleol, yn unol â Rheoliadau 1998.

Bydd yr awdurdod lleol yn paratoi ac yn cyhoeddi cynllun gweithredu cyn pen 70 diwrnod o dderbyn yr adroddiad gan Estyn, neu 80 diwrnod os yw'r awdurdod lleol o'r farn bod angen cyfieithu'r cynllun gweithredu i'r Gymraeg neu o'r Gymraeg. Bydd y cynllun yn nodi'r camau gweithredu y mae'r awdurdod lleol yn bwriadu eu cymryd i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd yn yr adroddiad.

Dylai cynllun gweithredu'r awdurdod lleol mewn ymateb i'r arolygiad adeiladu ar a llywio cynllun gwella'r awdurdod lleol.

Defnyddio'r Gymraeg

Bydd arolygiadau o awdurdodau lleol yn cydymffurfio â Chynllun Iaith Gymraeg Estyn. Lle y cynhelir cyfran sylweddol o fywyd a gwaith yr awdurdod lleol drwy gyfrwng y Gymraeg, bydd yn rhaid i'r holl ddogfennaeth a gynhyrchir gan y tîm at ddefnydd yr awdurdod lleol yn ystod yr arolygiad ar gael yn Gymraeg neu'n ddwyieithog. Lle bo'n angenrheidiol, bydd timau arolygu yn gallu arolygu yn Gymraeg ac yn Saesneg. Gall awdurdodau lleol ddarparu dogfennaeth yn Gymraeg a/neu Saesneg. Bydd pob adroddiad arolygu awdurdod lleol yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog.

Lle y gofynnir am hynny gan yr awdurdod, bydd Estyn yn darparu offer cyfieithu ar gyfer cyfarfodydd.

Sicrhau ansawdd arolygiadau

Er mwyn sicrhau gwelliant parhaus arolygiadau, mae Estyn a Swyddfa Archwilio Cymru yn ymrwymedig i:

- ddethol, hyfforddi, briffio, cynorthwyo a defnyddio arolygwyr, gan gynnwys aseswyr cymheiriaid, yn effeithiol;
- cynnal deialog reolaidd â'r AALl yn ystod yr arolygiad a chefnogi a hyrwyddo rôl weithredol yr enwebai;
- defnyddio meini prawf sy'n cydymffurfio â'r Fframwaith ar gyfer Arolygu gwasanaethau addysg awdurdodau lleol;
- adolygu a dadansoddi tystiolaeth yn ofalus;
- adborth llafar cynhwysfawr a diamwys;
- adroddiadau sy'n gyson glir, cywir ac wedi'u cyflwyno'n dda; a

- chynnal gweithdrefnau priodol ar gyfer rheoli ansawdd arolygiadau ac adroddiadau.

Er mwyn sicrhau adborth ar ansawdd arolygiadau, bydd Estyn yn gwahodd awdurdodau lleol i lenwi holiadur ar ôl pob arolygiad.

Dylai AALlau godi unrhyw bryderon ynghylch arolygiad gyda'r arolygydd cofnodol yn ystod yr arolygiad. Os na ellir datrys y pryderon yn y modd hwn, yna dylai'r AALl ysgrifennu at PAEM yn gofyn i'r mater gael ei ystyried ymhellach. Mae taflen sy'n esbonio gweithdrefnau cwynion ac apeliadau yn llawn ar gael gan Estyn. Gellir ei llwytho i lawr o wefan Estyn.

Sut y bydd arolygwyr yn ymddwyn

Mae Fframwaith Arolygu AALl yn pennu gofyniad ar arolygwyr i gydymffurfio â chod ymddygiad a gynlluniwyd i sicrhau cydweithrediad a hyder y rheiny sy'n cael eu harolygu.

Bydd arolygwyr yn gwneud eu gwaith yn gywir, yn gwrtais, a chan ddangos sensitifrwydd dyladwy

Wrth wneud hynny, dylai arolygwyr:

- gynnal arolygiadau yn effeithiol ac yn effeithlon;
- bod wedi paratoi'n drylwyr;
- trin yr holl staff, aelodau etholedig a defnyddwyr gwasanaeth â chwrteisi, parch a sensitifrwydd;
- lleihau aflonyddu a straen gymaint â phosibl; a
- sicrhau perthynas weithio gadarnhaol gydol yr arolygiad.

Bydd arolygwyr yn arfarnu gwaith yr AALl yn wrthrychol

Wrth wneud hynny, dylai arolygwyr:

- wneud eu gwaith yn annibynnol ac yn wrthrychol;
- cynnal arolygiadau heb ragfarn neu ragdybiaethau;
- sicrhau y gofynnir am gyn lleied o wybodaeth a deunydd arall ag sy'n realistig;
- casglu tystiolaeth gadarn o ystod o ffynonellau a'i phwyso'n ofalus; ac
- arfarnu yn erbyn y meini prawf yn y Fframwaith ar gyfer Arolygu AALlau a'r arweiniad a ddarperir yma.

Bydd arolygwyr yn adrodd yn onest, yn deg ac yn ddiduedd

Wrth wneud hynny, dylai arolygwyr:

- fod yn ddiduedd a dangos eu bod yn ddiduedd;
- adrodd eu canfyddiadau heb ofn na ffafr, gan nodi ac adrodd am nodweddion da a diffygion;
- nodi ac adrodd am faterion anodd y mae angen eu datrys er mwyn i'r awdurdod allu gwella;
- gwneud yn siwr bod yr adroddiad cyhoeddedig yn deg ac yn gynrychiolaeth gywir o waith yr awdurdod; a
- gwneud yn siwr bod yr adborth llafar yn gyson â'r adroddiad ysgrifenedig terfynol.

Bydd arolygwyr yn cyfathrebu'n glir ac yn agored

Wrth wneud hynny, dylai arolygwyr:

- fod yn agored a thryloyw yn eu trafodion â'r rheiny sy'n gysylltiedig â'r arolygiad;
- rhoi gwybodaeth gyson i uwch swyddogion yr awdurdod am faterion a chanfyddiadau sy'n ymddangos;
- gwneud yn siŵr bod y cyfathrebu'n effeithiol gydol yr arolygiad, ac yn enwedig yn ystod yr adborth llafar; a
- gwneud yn siŵr bod gwybodaeth gymhleth a barnau mor glir a hygyrch â phosibl.

Bydd arolygwyr yn gweithredu er budd diogelwch a lles dysgwyr

Wrth wneud hynny, dylai arolygwyr:

- wneud dim a allai beri i ddysgwr, swyddog neu aelod o'r awdurdod ofidio neu bryderu;
- gwneud dim sy'n codi amheuon ynghylch eu perthynas â swyddog, aelod, defnyddiwr gwasanaeth neu ran-ddeiliad yr awdurdod;
- adrodd unrhyw bryderon yn ddi-oed i'r awdurdod priodol am ddiogelwch neu les disgybl neu fyfyriwr neu unrhyw berson arall; a
- pheidio ag ymyrryd yn bersonol os gwelant ymddygiad gwael, oni bai bod diogelwch neu les rhywun mewn perygl.

Wrth ymweld ag ysgolion neu leoliadau eraill, ni fydd arolygwyr yn trafod â'r staff unrhyw gasgliadau neu farnau y daethpwyd iddynt mewn perthynas â gwaith yr awdurdod lleol.

Hefyd, bydd arolygwyr:

- yn sicrhau, lle bydd yn briodol, cyfrinachedd yr holl wybodaeth a dderbynnir yn ystod yr arolygiad;

- yn gwneud yn siŵr bod canfyddiadau'r arolygiad yn gyfrinachol i'r tîm a'r awdurdod nes y cyhoeddir yr adroddiad terfynol; a'u bod

- yn peidio â cheisio cael gwybodaeth gyfrinachol am werthuso staff.

Efallai y bydd arolygiadau yn cynnwys ymweliadau ag ysgolion a lleoliadau eraill lle y gallai effaith gwaith yr awdurdod lleol fod yn amlwg. Gall yr arolygiadau olygu arfarnu gwasanaethau a ddarperir ar ran yr awdurdod lleol gan gontractwyr preifat neu sefydliadau gwirfoddol partner. Wrth ymweld ag ysgolion a lleoliadau eraill, dylai arolygwyr weithredu er budd pob dysgwr. Bydd pob aelod o'r tîm arolygu sy'n ymweld ag ysgolion a lleoliadau eraill lle mae plant ac oedolion sy'n agored i niwed wedi cael eu clirio'n llwyddiannus mewn archwiliadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol (CRB).

Ni chaiff unigolion, ysgolion a lleoliadau eraill eu henwi fel arfer yn yr adroddiad a gyhoeddir, oni bai bod y wybodaeth yn arbennig o berthnasol i ganlyniadau'r arolygiad, fel enwi ysgol sydd newydd ei hadeiladu, ysgol arbennig sy'n bodloni anghenion penodol dysgwyr neu uned cyfeirio disgyblion. Bydd y tîm arolygu yn trafod ysgolion neu leoliadau eraill gyda swyddog ac aelodau'r awdurdod lleol, yn enwedig mewn arolygiad o'r swyddogaeth gwella ysgol. Fodd bynnag, os daw unrhyw bryderon difrifol i'r amlwg o ran safonau cyflawniad neu ansawdd yr addysg, diogelwch disgyblion, lles neu ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion, rheolaeth yr ysgol neu'r lleoliad, neu ei gweithdrefnau rheoleiddio ariannol a'i chywirdeb ariannol, bydd yr arolygwyr yn trafod y materion a ddaw i'r amlwg â'r pennaeth a'r corff llywodraethol ac yn hysbysu PAEM, yr awdurdod lleol a, lle mae'n briodol, yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch neu'r archwilydd allanol. Bydd yr arolygwyr yn hysbysu'r pennaeth ar unwaith am unrhyw faterion sy'n effeithio'n ddifrifol ar iechyd, diogelwch a lles y disgyblion.

Bydd yr arolygwyr yn dangos sensitifrwydd dyladwy gydol yr arolygiad gan gofio bod gan yr awdurdod lleol a phersonél yr ysgol waith i'w wneud a bod gofynion eraill arnynt yn ogystal â'r arolygiad.

Diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed

Os yw aelod o'r tîm arolygu yn ymwybodol o, neu'n cael ei rybuddio, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, am haeriad neu amheuaeth o gam-drin neu esgeuluso plentyn neu oedolyn sy'n agored i niwed, mae'n rhaid i'r arolygydd weithredu'n unol â pholisi a gweithdrefnau diogelu plant Estyn.

Yn achos arolygiad amlddisgyblaethol sy'n mynd rhagddo ac Estyn yw'r brif arolygiaeth, bydd yr arolygydd cofnodol yn rhoi copi o bolisi a gweithdrefnau diogelu plant Estyn i bob aelod o'r tîm fel rhan o'u briffio cychwynnol cyn iddynt ymuno â'r tîm. Disgwylir i arolygwyr o arolygiaethau eraill weithio o fewn y gweithdrefnau hyn.

Datgelu gwybodaeth

Mae Estyn wedi ymrwymo i wneud ei fusnes mor agored â phosibl. Mae'n ymateb i unrhyw geisiadau am wybodaeth a wneir gan y cyhoedd oni bai bod rhesymau cyfreithiol clir dros beidio â gwneud hynny neu y gellir dangos yn glir nad yw er budd y cyhoedd. Mae gan unigolion eisoes yr hawl mynediad statudol i'w gwybodaeth bersonol dan Ddeddf Diogelu Data 1998. Mae data personol yn cynnwys unrhyw fynegiant barn am unigolyn ac unrhyw arwydd o fwriadau unrhyw berson mewn perthynas â'r unigolyn. O ran arolygiadau, golyga hyn bod gwybodaeth am swyddog neu aelod o'r awdurdod yn ddata personol hyd yn oed cyn sefydlu ei hunaniaeth gan ei bod yn debygol y bydd yr arolygiad yn cyflwyno gwybodaeth arall a fydd yn nodi ei hunaniaeth.

O fis Ionawr 2005, mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn ymestyn yr hawl i ganiatáu mynediad i bob mathau o wybodaeth a gedwir, boed yn wybodaeth bersonol neu heb fod yn bersonol, gan awdurdodau cyhoeddus. Gall unrhyw un, ym mha le bynnag yn y byd, arfer eu hawl i gael mynediad at wybodaeth a gedwir gan awdurdodau cyhoeddus. Mae'r Ddeddf yn berthnasol i awdurdodau cyhoeddus a'r rheiny sy'n darparu gwasanaethau iddynt. Y gofyniad sylfaenol dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yw i hawl mynediad at wybodaeth wedi'i chofnodi a gedwir gan awdurdodau cyhoeddus. Gan fod y deunydd gwreiddiol a geir yn ystod arolygiad yn eiddo i Estyn, Estyn fydd yn delio ag unrhyw geisiadau dan y Deddfau ac yn penderfynu pa wybodaeth y dylid ei datgelu. Yn amodol ar yr eithriadau yn Neddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, mae'n rhaid i Estyn hysbysu unrhyw berson sy'n gwneud cais am wybodaeth pa un a yw'r wybodaeth yn cael ei chadw, ac os ydyw, rhaid iddo gyflwyno'r wybodaeth honno.

Mae arolygwyr yn ymwybodol y gellir gwneud ceisiadau am wybodaeth dan Ddeddf Diogelu Data 1998 a Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 am fanylion a gynhwysir mewn tystiolaeth arolygiadau, llythyrau ac e-byst. Gall unrhyw sylw a wneir ddod yn agored i archwilio ehangach os oes rhywun yn gofyn am fynediad at y wybodaeth honno. Bydd arolygwyr felly yn sicrhau bod pob gwybodaeth yn cael ei chofnodi mewn modd gwrthrychol a bod modd ategu pob sylw pe bai angen eu datgelu.

Rhan 3: Y broses arolygu

Camau arolygiad unigol

Bydd camau arolygiad yn amrywio yn ôl y mathau gwahanol o arolygiad. Yn gryno, mae'r broses ar gyfer pob math o arolygiad fel a ganlyn:

	Risg uchel	Risg ganolig	Risg isel
Arolygiad llawn	• Yr awdurdod yn darparu gwybodaeth cyn-arolygiad • Cyfarfod briffio cyn-arolygiad i'r awdurdod • Arolygiad dros ddau gyfnod pum niwrnod • Llunio adroddiad ar ôl yr wythnosau arolygu • Lleiafswm o chwech AEM, arolygydd Swyddfa Archwilio Cymru ac asesydd cymheiriaid	• Yr awdurdod yn darparu gwybodaeth cyn-arolygiad • Cyfarfod briffio cyn-arolygiad i'r awdurdod • Cyfnod arolygiad o bum niwrnod a thri diwrnod • Llunio adroddiad ar ôl yr wythnosau arolygu • Lleiafswm o bump AEM, arolygydd Swyddfa Archwilio Cymru ac asesydd cymheiriaid	• Yr awdurdod yn darparu gwybodaeth cyn-arolygiad • Cyfarfod briffio cyn-arolygiad i'r awdurdod • Cyfnod arolygiad o bum niwrnod • Llunio adroddiad ar ddiwedd y cyfnod arolygu pum niwrnod • Lleiafswm o bump AEM, arolygydd Swyddfa Archwilio Cymru ac asesydd cymheiriaid
Arolygiadau o faes unigol neu gyfuniad o feysydd	• Yr awdurdod yn darparu gwybodaeth cyn-arolygiad • Cyfarfod briffio cyn-arolygiad i'r awdurdod • Cyfnod arolygiad o bum niwrnod • Llunio adroddiad ar ôl wythnos yr arolygiad • Rhwng pedwar a chwech AEM, gan ddibynnu ar nifer y meysydd yn cael eu harolygu • Arolygydd Swyddfa Archwilio Cymru ac asesydd cymheiriaid	• Yr awdurdod yn darparu gwybodaeth cyn-arolygiad • Cyfarfod briffio cyn-arolygiad i'r awdurdod • Llai o amser gan y tîm arolygu i baratoi o gymharu ag arolygiad risg uchel • Cyfnod arolygiad o bum niwrnod • Llunio adroddiad ar ôl wythnos yr arolygiad • Rhwng tri a chwech AEM, gan ddibynnu ar nifer y meysydd yn cael eu harolygu • Arolygydd Swyddfa Archwilio Cymru ac asesydd cymheiriaid	• Cyfarfod gyda'r awdurdod cyn yr arolygiad i drafod y trefniadau cyfundrefnol ar gyfer yr arolygiad • Cyfarfod briffio gyda'r awdurdod ar ddiwrnod cyntaf y cyfnod arolygu ar y safle • Cyfnod arolygiad o bum niwrnod • Llunio adroddiad drafft ar ddiwedd wythnos yr arolygiad • Rhwng dau a phedwar AEM, gan ddibynnu ar nifer y meysydd yn cael eu harolygu • Arolygydd Swyddfa Archwilio Cymru ac asesydd cymheiriaid

Cyn yr arolygiad

Ar gyfer pob arolygiad, bydd angen i arolygwyr wneud **ymweliad cychwynnol** â'r awdurdod i drafod yr arolygiad ac i wneud trefniadau ar gyfer casglu'r wybodaeth y bydd yr awdurdod yn ei darparu. Bydd yr ymweliad yn cael ei defnyddio hefyd i gadarnhau a yw'r awdurdod yn dymuno cael enwebai.

Ar gyfer pob arolygiad ac eithrio arolygiad risg isel o gyfuniad o feysydd neu arolygiad risg isel o faes unigol, bydd arolygwyr wedyn yn **adolygu ystod o wybodaeth**, gan gynnwys y wybodaeth sydd eisoes wedi'i chasglu a'i chadw gan Estyn a/neu Swyddfa Archwilio Cymru. Byddant hefyd yn adolygu unrhyw adroddiadau arolygu perthnasol am yr awdurdod ac am weithgareddau cysylltiedig fel y rheiny ar gyfer Dysgu Oedolion yn y Gymuned, Gwasanaethau Ieuenctid, Partneriaeth Pobl Ifanc (PPI) a Thimau Troseddwyr Ieuenctid.

Bydd yr arolygwyr hefyd yn adolygu ystod o wybodaeth a ddarperir gan yr awdurdod lleol, fel:

- dogfennau cysylltiedig â'r maes ac unrhyw hunanarfarniad a/neu asesiad risg cysylltiedig;
- perfformiad yn erbyn dangosyddion cenedlaethol a gwybodaeth feincnodi;
- canlyniadau ymgynghoriadau â defnyddwyr gwasanaeth a rhan-ddeiliaid eraill;
- prif gynlluniau strategol yr awdurdod sy'n berthnasol i ffocws yr arolygiad;
- adroddiadau blynyddol, cyfrifon a llythyrau rheolwyr i aelodau;
- cynllun gwella'r awdurdod lleol, adroddiad yr archwilydd ar y cynllun a chynlluniau perthnasol eraill yn gysylltiedig â Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella;
- arweiniad corfforaethol ar hunanarfarnu a gwelliant;
- adroddiadau arolygu blaenorol Estyn ac adroddiadau gan arolygiaethau a rheoleiddwyr eraill; ac
- adroddiadau unrhyw arfarniadau allanol a gomisiynwyd gan yr awdurdod.

Ni ddylai fod yn angenrheidiol fel arfer i'r awdurdod lleol gynhyrchu dogfennaeth yn benodol ar gyfer yr arolygiad.

Bydd hunanarfarniad yr awdurdod yn fan cychwyn ar gyfer yr arolygiad. Bydd arolygwyr yn adolygu'r ddogfennaeth ac o ganlyniad byddant:

- yn llunio damcaniaethau am ansawdd darpariaeth a pherfformiad yr awdurdod lleol; ac

- yn nodi pa wybodaeth bellach sydd ei hangen arno er mwyn llunio'r barnau yn yr adroddiad.

Bydd yr arolygwyr yn cynllunio'n ofalus hefyd sut i brofi eu damcaniaethau a'r ffordd orau i gasglu'r wybodaeth ychwanegol. Byddant yn enwi pobl i'w cyfweld ac yn cynllunio ystod o weithgareddau arolygu a fydd yn eu galluogi i gasglu tystiolaeth, profi damcaniaethau a llunio barnau mor effeithlon â phosibl.

Ar gyfer pob arolygiad ac eithrio arolygiad risg isel o gyfuniad o feysydd neu arolygiad risg isel o faes unigol, bydd arolygwyr wedyn yn **cyfarfod â'r awdurdod** i esbonio eu hargraffiadau cychwynnol a'u cynigion ar gyfer camau nesaf yr arolygiad. Caiff yr awdurdod ei wahodd i holi ynghylch yr argraffiadau cychwynnol hyn a'r gweithgareddau sydd wedi'u cynllunio. Wedyn, bydd yr awdurdod yn trefnu cyfweliadau, ymweliadau, cyfarfodydd ac adborth llafar. Bydd hefyd yn briffio unrhyw staff ac aelodau etholedig sy'n debygol o fod yn gysylltiedig â'r arolygiad. Er y bydd y gweithgareddau arolygu hyn yn cael eu cynllunio a'u cytuno gyda'r awdurdod lleol, efallai y caiff rhai gweithgareddau ychwanegol eu trefnu ar fyr rybudd.

Ar gyfer **arolygiadau risg isel o faes unigol neu gyfuniad o feysydd,** bydd yr arolygwyr yn cyfarfod â'r awdurdod yn unig i roi amlinelliad o drefniadau a gweithgareddau'r arolygiad gan y bydd holl weithgareddau'r arolygiad yn digwydd yn ystod cyfnod yr arolygiad ar y safle. Bydd yr arolygwyr yn trefnu gyda'r awdurdod ar gyfer:

- darparu dogfennaeth briodol o fore cyntaf wythnos yr arolygiad; a

- threfnu cyfweliadau a chyfarfodydd adborth addas.

Caiff yr ymweliad ei ddefnyddio hefyd i gadarnhau a yw'r awdurdod yn bwriadu cael enwebai.

Yn ystod yr arolygiad

Mewn **arolygiadau llawn risg uchel a risg ganolig**, bydd dau gyfnod ar wahân o arolygiadau ar y safle, gydag adolygiad o dystiolaeth rhwng y ddau gyfnod. Mae'r cyfnod cyntaf yn bum niwrnod pan fydd yr arolygwyr yn edrych ar bob agwedd ar waith yr awdurdod. Dilynir hyn gan gyfnod pan fydd yr arolygwyr yn adolygu'r dystiolaeth ac yn sefydlu materion pellach a mwy penodol y mae angen eu harchwilio'n fanylach yn yr ail gyfnod. Bydd yr arolygydd arwain yn hysbysu'r awdurdod am y materion hyn ac yn trefnu ar gyfer unrhyw gyfweliadau, ymweliadau a chyfarfodydd y mae angen eu cynnal yn yr ail gyfnod ar y safle. Bydd yr arolygwyr yn darparu adborth llafar anffurfiol tuag at ddiwedd cyfnod cyntaf yr arolygiad ar y safle, ac adborth ffurfiol ar ddiwedd yr ail gyfnod. Fel arfer disgwylir y bydd dwy ran yr arolygiad ar y safle yn digwydd o fewn cyfnod tair wythnos.

Ym **mhob arolygiad arall**, bydd cyfnod arolygiad unigol o bum niwrnod. Darperir adborth llafar ffurfiol ar ddiwedd y cyfnod hwn.

Yn ystod cyfnod yr arolygiad ar y safle ym **mhob mathau o arolygiadau**, bydd yr arolygwyr:

- yn cyfweld personél allweddol ac aelodau etholedig;
- yn cynnal cyfarfodydd â rhan-ddeiliaid;
- yn ymweld ag ysgolion a/neu leoliadau eraill;
- yn adolygu'n gyson pa un a oes tystiolaeth ddigonol wedi'i chasglu; ac
- yn darparu adborth cyson i'r awdurdod.

Yn ystod yr un cyfnod hwn bydd yr awdurdod:

- yn cael ac yn ymateb i adborth cyson gan yr arolygwyr; ac
- os yw'n berthnasol, yn sicrhau bod yr enwebai yn cael digon o amser i fod yn aelod effeithiol o'r tîm arolygu.

Bydd yr arolygwyr yn edrych ar y gwasanaeth o safbwynt y defnyddiwr. Mae'r cam hwn yn cynnig cyfle i arolygwyr brofi damcaniaethau drwy gynnal amrywiaeth o weithgareddau arolygu er mwyn casglu mwy o dystiolaeth a gwybodaeth.

Tuag at ddiwedd cyfnod yr arolygiad ar y safle, bydd yr arolygwyr:

- yn cyflwyno'r adborth llafar i'r awdurdod; ac
- yn cael ac yn ymateb i'r adweithiau cychwynnol i'r adborth.

Bydd yr arolygwyr yn rhoi eu barnau i'r awdurdod lleol ac yn dangos y dystiolaeth i ategu'r barnau hyn. Dylai uwch reolwyr ac aelodau etholedig fynychu'r cyfarfod hwn. Bydd yr arolygwyr yn croesawu ymatebion gan yr awdurdod, gan gynnwys sylwadau ar y canfyddiadau a chadarnhad o gywirdeb ffeithiol, lle bydd angen. Bydd yr arolygwyr yn cynnig ystyried unrhyw dystiolaeth bellach y dymuna'r awdurdod ei darparu mewn ymateb i'r canfyddiadau a gyflwynir yn yr adborth llafar. Dylai'r awdurdod gyflwyno unrhyw dystiolaeth ychwanegol i'r arolygwyr cyn gynted ag y bo modd, a chyn pen pum niwrnod gwaith ar ôl yr adborth llafar.
Yn achos **arolygiadau risg isel unigol neu arolygiadau risg isel cyfunol**, yn ychwanegol at yr adborth llafar, bydd adroddiad drafft yn cael ei lunio erbyn diwedd cyfnod yr arolygiad ar y safle.

Ar ôl yr arolygiad

Ym mhob arolygiad, ar ôl ystyried unrhyw dystiolaeth bellach a gyflwynir gan yr awdurdod lleol, bydd yr arolygwyr yn llunio adroddiad drafft. Bydd yr awdurdod lleol yn cael adroddiad drafft hwyr, naill ai'n electronig neu ar ffurf copi caled, i helpu gyda'r gwaith o wirio cywirdeb ffeithiol. Gwahoddir awdurdodau lleol i gyflwyno ymateb ysgrifenedig i ganfyddiadau'r arolygiad i'w gynnwys yn yr adroddiad. Caiff yr ymateb ei gyhoeddi trwy gytundeb â'r arolygydd cofnodol. Mae gan yr awdurdod lleol

bum niwrnod gwaith i ystyried yr adroddiad drafft ac i lunio'i ymateb.

Os yw'r awdurdod lleol yn dymuno darparu ymateb ysgrifenedig i'w gynnwys yn yr adroddiad, dylai:

- ddefnyddio'r ymateb i roi arwydd cynnar o'r modd mae swyddogion ac aelodau'n bwriadu ymdrin â'r argymhellion;

- gwneud yn siŵr bod yr ymateb yn gryno ac nid hwy nag un tudalen yn gyffredinol;

- anfon yr ymateb at yr arolygydd cofnodol cyn pen pum niwrnod gwaith o dderbyn yr adroddiad drafft; a

- deall bod hawl gan yr arolygydd cofnodol i beidio â chynnwys yr ymateb ysgrifenedig yn yr adroddiad arolygu lle mae amgylchiadau'n gwarantu hynny.

Bydd Estyn yn llunio'r adroddiad terfynol, a bydd yr awdurdod lleol yn sicrhau bod copïau ohono ar gael fel a nodir ar dudalennau 13 a 14. Bydd Estyn hefyd yn anfon copi o'r adroddiad i Swyddfa Archwilio Cymru. Gall Estyn a Swyddfa Archwilio Cymru roi'r adroddiad ar y Rhyngrwyd wedi iddo gael ei gyhoeddi.

Mae Adran 39 Deddf Addysg 1997 yn galluogi PAEM i drefnu i unrhyw adroddiad am AALl gael ei gyhoeddi ar unrhyw ffurf y mae'n ystyried yn briodol. Bydd Estyn yn anfon copïau o'r adroddiad terfynol at Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac at Brif Swyddog Addysg yr awdurdod lleol, yr aelod etholedig â'r prif gyfrifoldeb dros addysg a Phrif Weithredwr yr Awdurdod Unedol.

Pan fydd yr adroddiad wedi'i gyhoeddi neu ar fin cael ei gyhoeddi, gallai'r Arolygydd Cofnodol, os caiff ei wahodd i wneud hynny gan y cyngor, gyflwyno'r adroddiad i'r Cyngor llawn neu i grŵp o aelodau a swyddogion dynodedig a bennir gan y Cyngor.

Rhan 4: Amserlen arolygu

Mae'r amserlen arolygu yn rhoi:

- strwythur yr adroddiad
- y barnau allweddol a gynhwysir yn yr adroddiad
- y cwestiynau allweddol sy'n arwain at y barnau hynny; a'r
- meysydd sydd i'w harfarnu (gan ddefnyddio meini prawf sy'n seiliedig ar feini prawf hunanarfarnu presennol yr AALl lle bônt ar gael)

Rhaid defnyddio'r amserlen ar gyfer cynnal arolygiadau Adran 38 o wasanaethau awdurdodau lleol.

Strwythur yr adroddiad

Bydd pob adroddiad arolygu yn dilyn y strwythur canlynol:

- Cynnwys;
- Cyd-destun;
- Crynodeb;
- Argymhellion;
- Canfyddiadau (ar gyfer pob maes a arolygir);
- Ymateb yr awdurdod i ganfyddiadau'r adroddiad;
- Proffil graddio; and
- Cyfansoddiad y tîm arolygu.

1 Cyd-destun

Caiff yr adran 'Cyd-destun' ei chytuno gyda'r awdurdod. Bydd yr adran hon yn cynnwys:

- datganiad yn disgrifio cyd-destun yr arolygiad (e.e. ffocws yr arolygiad, ei berthynas â Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella a'i le o fewn cylch Estyn o arolygiadau;

- datganiad ffeithiol, cryno ar gwmpas y prif faes(feysydd) cyfrifoldeb sy'n cael eu harolygu a'r gweithdrefnau hunanarfarnu cysylltiedig;

- datganiad ffeithiol, cryno ar natur yr awdurdod lleol, ei gymuned, a'r nodweddion hynny ar yr ardal sy'n dylanwadu ar ei waith o ran y gwasanaethau sy'n cael eu harolygu; a

- pharagraff ar gyllid a fydd yn ffeithiol ac yn gryno iawn, gan gynnwys nid mwy na datganiad ar sut mae gwariant yr awdurdod mewn addysg yn cysylltu â'i Asesiad Seiliedig ar Ddangosyddion ar gyfer addysg (IBA), ac esbonio pa ffactorau sy'n gwneud y gwariant hwn yn uchel, yn isel neu fel arall.

Bydd y datganiadau yn yr adran hon yn cynnwys, er enghraifft, gwybodaeth am nifer a natur yr ysgolion, cyfran y disgyblion a nodwyd fel rhai ag anghenion addysgol arbennig a'r ddarpariaeth a wneir ar eu cyfer, a disgrifiad o gyfansoddiad yr ardal yn nhermau ei chefndir ethnig, ieithyddol, cymdeithasol ac economaidd. Gall y datganiad gyfeirio'n gryno at unrhyw nodweddion penodol sy'n helpu gosod yr arolygiad yn ei gyd-destun, fel newidiadau arwyddocaol diweddar o ran natur neu strwythur yr awdurdod. Gall gwybodaeth ychwanegol am gyfansoddiad gwleidyddol a blaenoriaethau ariannu'r awdurdod, helpu i osod addysg yng nghyd-destun yr awdurdod cyfan.

2 Crynodeb

Bydd yr adran 'Crynodeb' yn cynnwys crynodeb byr o brif ganfyddiadau'r adroddiad, wedi'i ysgrifennu mewn arddull sy'n briodol ar gyfer cynulleidfa eang, nad ydynt yn broffesiynol.

Ar gyfer pob maes a arolygir, bydd y crynodeb yn rhoi barnau clir fel y'u nodir yn yr adran ar Farnau Arolygu yn Rhan 2 y Fframwaith ar gyfer arolygu gwasanaethau awdurdodau lleol.

Bydd y prif farnau'n cael eu nodi ar siart sgorio.

Bydd gweddill y crynodeb yn nodi cydbwysedd y prif ganfyddiadau mewn perthynas â phob un o ddwy farn allweddol yr arolygiad. Bydd canfyddiadau cadarnhaol yn dod yn gyntaf.

3 Argymhellion

Bydd yr adran hon yn cynnwys argymhellion clir ac ymarferol am y camau gweithredu y dylai'r awdurdod eu cymryd i wella ei berfformiad.

Bydd yr argymhellion yn cael eu nodi mewn ffordd sy'n darparu sail glir er mwyn i'r:

- awdurdod lleol gynllunio gwelliannau i ansawdd ei wasanaeth;

- arolygwyr arfarnu cynnydd yn ystod gwaith dilynol; ac

- archwilwyr asesu i ba raddau y mae'r awdurdod wedi ymateb i'r arolygiad yn ystod eu harchwiliad blynyddol o'r cynllun gwella.

Dylai'r argymhellion ddeillio o'r canfyddiadau ac ymwneud â'r cwestiynau allweddol. Bydd y pwyslais ar godi'r safonau a gyflawnir gan ddysgwyr a gwella ansawdd gwasanaethau awdurdodau lleol. Bydd achosion o ddiffyg cydymffurfio â gofynion statudol a materion o arwyddocâd penodol mewn perthynas â materion iechyd a diogelwch yn cael eu cynnwys. Bydd yr argymhellion yn cael eu rhestru yn nhrefn blaenoriaeth mewn perthynas â gwella ansawdd gwasanaethau. Lle mae'r arolygiad yn amlygu materion a nodwyd eisoes fel blaenoriaethau yng nghynlluniau cyhoeddedig yr awdurdod lleol, fel cynlluniau strategol, bydd yr adran hon yn cyfeirio at hynny.

Caiff yr argymhellion eu rhifo. h.y. A1, A2 a.y.y.b.

4 Canfyddiadau

Yn yr adran hon, bydd y barnau a adroddir yn yr adran Crynodeb yn cael eu hategu gan arfarniadau, sylwadau ac enghreifftiau perthnasol o dystiolaeth yn ymwneud â'r pedwar cwestiwn allweddol.

Cwestiwn allweddol 1: Pa mor effeithiol yw cynllunio strategol yr awdurdod?

Bydd yr arolygwyr yn arfarnu, yn graddio ac yn adrodd am y graddau y mae'r awdurdod:

- â nodau priodol a ddatgenir yn glir sy'n:

  - rhoi sylw i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol perthnasol;

  - ystyried archwiliadau o angen; ac sy'n

  - adlewyrchu canlyniadau'r hunanarfarniad.

- yn ymgynghori ac yn cyfathrebu'n effeithiol gyda defnyddwyr gwasanaeth, pobl leol a phartneriaid allweddol;
- â strategaethau realistig a chydlynol, polisïau a chynlluniau ategol ar gyfer gweithredu gweithgareddau sy'n nodi'n glir sut mae'n mynd i droi nodau yn weithredoedd a pha ganlyniadau mae'n ceisio eu sicrhau;

- yn effeithiol wrth wneud penderfyniadau;

- yn ystyried adnoddau'n strategol ac yn cydweddu'r rhain (staff, cyllid ac ati) â'i flaenoriaethau ar gyfer cyflwyno gwasanaethau; ac

- yn cyfrannu at, yn arwain (lle bo'n berthnasol) ac yn cael cymorth partneriaethau.

Cwestiwn allweddol 2: Pa mor effeithiol yw'r gwasanaethau a sut mae'r perfformiad yn cymharu, gan gynnwys gwerth am arian?

Dylai arolygwyr arfarnu, graddio ac adrodd am effeithiolrwydd a gwerth am arian:

Cymorth ar gyfer gwella ysgolion:

- Cymorth, monitro, herio ac ymyrryd gan yr awdurdod lleol;
- Gwaith yr awdurdod wrth godi safonau mewn meysydd blaenoriaeth, gan gynnwys cymorth cwricwlwm;
- Fodloni anghenion a chodi safonau grwpiau penodol;
- Cymorth cwricwlwm a gwella'r cwricwlwm, ac ehangu cyfleoedd i ddysgu;
- Cymorth ar gyfer arweinyddiaeth a rheolaeth ysgolion, gan gynnwys cymorth i lywodraethwyr ysgol; a
- Gwerth am arian.

Hyrwyddo cynhwysiad cymdeithasol a lles:

- Gwaith y Cyngor i fodloni'i ddyletswyddau statudol mewn perthynas â:
  - phlant y gofelir amdanynt;
  - disgyblion sydd wedi'u gwahardd;
  - hyrwyddo cydraddoldeb hiliol a brwydro yn erbyn hiliaeth;
  - atal a cheisio datrys bwlio; a
  - diogelwch a lles plant.
- Gwaith y Cyngor wrth godi safonau ar gyfer grwpiau penodol o blant a phobl ifanc sy'n agored i niwed;
- Cymorth ar gyfer presenoldeb mewn ysgolion;
- Cymorth ar gyfer ymddygiad mewn ysgolion; a
- Gwerth am arian.

Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY):

- Gwaith y Cyngor i fodloni'i rwymedigaethau statudol mewn perthynas â phlant a phobl ifanc a chanddynt anghenion dysgu ychwanegol (ADY);
- Gwaith y Cyngor wrth godi safonau ar gyfer plant a phobl ifanc ag ADY;
- Darpariaeth y Cyngor ar gyfer plant a phobl ifanc ag ADY, gan gynnwys darpariaeth a gomisiynir a/ neu a ddarperir gan neu gydag asiantaethau eraill;
- Gwaith y Cyngor gyda rhieni a gofalwyr plant a phobl ifanc ag ADY; a
- Gwerth am arian.

Mynediad a threfniadaeth ysgolion:

- Darpariaeth ystod a nifer priodol o leoedd mewn ysgolion;
- Cynllunio rheoli asedau a'r rhaglen cyfalaf addysg, (gan gynnwys iechyd a diogelwch);
- Derbyn i ysgolion;
- Cludiant i'r ysgol a'r cartref;
- Cydlynu'r blynyddoedd cynnar (ar ôl i Ddeddf Plant 2004 gychwyn); a
- Gwerth am arian.

Gwasanaethau cymorth:

- Gwasanaethau i gynorthwyo ysgolion;
- Gwasanaethau corfforaethol ar gyfer addysg, gan gynnwys ysgolion;
- Gwasanaethau cysylltiedig ag eiddo;
- Prydau ysgol; a
- Gwerth am arian.

Cwestiwn allweddol 3: Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth strategol?

Bydd arolygwyr yn arfarnu, yn graddio ac yn adrodd am:

- ansawdd yr arweinyddiaeth a ddarperir gan aelodau etholedig;

- ansawdd yr arweinyddiaeth a ddarperir gan uwch swyddogion; ac

- ansawdd a phriodoldeb aelodaeth a gweithredoedd wrth weithio mewn partneriaeth.

Cwestiwn allweddol 4. Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn monitro, yn arfarnu ac yn gwella gwasanaethau?

Bydd arolygwyr yn arfarnu, yn graddio ac yn adrodd am y graddau y mae'r awdurdod:

- yn gwneud trefniadau priodol ar gyfer sicrhau gwelliant parhaus gan roi ystyriaeth ddyladwy i ddarbodusrwydd, effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd;

- yn sicrhau bod aelodau etholedig yn chwarae rôl briodol mewn rheoli perfformiad;

- yn gweithredu gweithdrefnau hunanarfarnu yn effeithiol, ac yn meddu ar dealltwriaeth dda o'i gryfderau a'r meysydd i'w gwella; ac

- â hanes da o sicrhau gwelliannau.

5 Ymateb yr awdurdod i ganfyddiadau'r adroddiad

Gwahoddir yr awdurdod lleol i gyflwyno ymateb ysgrifenedig i ganfyddiadau'r arolygiad i'w gynnwys yn yr adroddiad. Caiff yr ymateb ei gyhoeddi trwy gytundeb â'r arolygydd cofnodol. Nid yr ymateb yw'r lle i'r AALl fynegi barn am ansawdd arolygiad. Gall AALlau gynnig sylwadau ar y broses arolygu drwy lenwi holiadur ar ddiwedd yr arolygiad a'i anfon yn ôl at Estyn.

Dylai'r AALl:

- ddarparu ymateb ysgrifenedig i brif ganfyddiadau'r arolygiad;

- defnyddio'r ymateb hwn i roi arwydd cynnar o'r modd y mae swyddogion ac aelodau'n bwriadu ymdrin â'r argymhellion;

- gwneud yn siŵr bod yr ymateb yn gryno;

- anfon yr ymateb at yr arolygydd cofnodol cyn pen pum niwrnod gwaith o dderbyn yr adroddiad drafft; a
- deall bod hawl gan yr arolygydd cofnodol i beidio â chynnwys yr ymateb ysgrifenedig yn yr adroddiad arolygu lle mae'r amgylchiadau'n gwarantu hynny.

6 Proffil o'r graddau arolygu

Bydd y graddau a roddir ar gyfer pob arolygiad yn cyfrannu at broffil graddau cronnus ar gyfer yr AALl.

Dyma'r meysydd sydd i'w harfarnu gan ddefnyddio meini prawf yn seiliedig ar Feini Prawf Arolygu a Hunanarfarnu Awdurdodau Addysg Lleol Adran 38 a'r Proffil Graddau Arolygu a gynhyrchwyd gan Estyn, ADEW a LICC yw:

- Rheolaeth strategol;
- Cymorth i wella ysgolion;
- Hyrwyddo cynhwysiad cymdeithasol;
- Anghenion dysgu ychwanegol;
- Mynediad a lleoedd ysgolion; a
- Gwasanaethau cymorth.

Bydd Estyn yn arolygu 'rheolaeth strategol' mewn dwy ffordd:

- Lle mae AALl yn dewis cael arolygiad llawn o'i holl brif feysydd cyfrifoldeb, bydd Estyn yn arolygu ac yn adrodd am reolaeth strategol yn ogystal â'r prif feysydd cyfrifoldeb eraill; a
- Lle mae AALl yn dewis cael arolygiadau o feysydd unigol prif gyfrifoldebau neu gyfuniad o feysydd cyfrifoldeb unigol, yna ni fydd rheolaeth strategol yn ffocws ar wahân i'w arolygu. Y rheswm am hyn yw y bydd arolygu'r prif feysydd cyfrifoldeb eraill yn rhoi arfarniad o agwedd sylweddol ar reolaeth strategol. Ar ôl pob arolygiad o faes unigol neu gyfuniad o feysydd unigol, bydd Estyn yn nodi'r graddau perthnasol ar gyfer rheolaeth strategol ym Mhroffil Arolygu'r AALl. Fodd bynnag, graddau interim fydd y rhain a bydd angen eu diweddaru ar ôl pob arolygiad a'u nodi'n derfynol ar ddiwedd y cylch arolygu.

Gan fod 'gwasanaethau cymorth' yn faes llai na'r lleill, bydd y maes hwn yn cael ei arolygu'n unig fel rhan o arolygiad llawn neu ar y cyd ag un neu fwy o'r meysydd eraill.

Mae'r tabl canlynol yn dangos y proffil graddau ar gyfer AALl.

Cwestiwn		RhS*	Cymorth ar gyfer gwella ysgolion	Hyrwyddo cynhwysiad cymdeithasol	ADY	Mynediad a threfniant ysgolion	Gwasanaethau cymorth
1 Pa mor effeithiol yw cynllunio strategol yr awdurdod?							
1.1	â **nodau** priodol a ddatgenir yn glir sy'n: ➢ rhoi sylw i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol perthnasol ➢ ystyried archwiliadau o angen, ac ➢ adlewyrchu canlyniadau hunanarfarnu						
1.2	**yn ymgynghori ac yn cyfathrebu** yn effeithiol gyda defnyddwyr gwasanaeth, pobl leol a phartneriaid allweddol						
1.3	â **strategaethau** realistig a chydlynol, a **chynlluniau** ategol ar gyfer gweithredu gweithgareddau sy'n nodi'n glir sut mae'n mynd i droi nodau yn weithredoedd a pha ganlyniadau mae'n ceisio eu sicrhau						
1.4	yn effeithiol wrth wneud **penderfyniadau**						
1.5	yn ystyried **adnoddau** yn strategol ac yn cydweddu'r rhain (staff, cyllid ac ati) â'i flaenoriaethau ar gyfer cyflwyno gwasanaethau						
1.6	yn cyfrannu at, yn arwain (lle bo'n berthnasol) ac yn cael cymorth **partneriaethau**						

Cwestiwn	RhS*	Cymorth ar gyfer gwella ysgolion	Hyrwyddo cynhwysiad cymdeithasol	ADY	Mynediad a threfniant ysgolion	Gwasanaethau cymorth
2 Pa mor effeithiol yw gwasanaethau'r awdurdod?						
gweler y testun ar gyfer gwasanaethau unigol		Cymorth, monitro, herio ac ymyrryd gan yr awdurdod lleol	Gwaith y Cyngor i fodloni'i ddyletswyddau statudol mewn perthynas â: • phlant y gofelir amdanynt • disgyblion sydd wedi'u gwahardd • hyrwyddo cydraddoldeb hiliol a brwydro yn erbyn hiliaeth • atal a cheisio datrys bwlio; • diogelwch a lles plant	Gwaith y Cyngor i fodloni'i rwymedigaethau statudol mewn perthynas â phlant a phobl ifanc ag ADY	Darpariaeth ystod a nifer priodol o leoedd mewn ysgolion	Gwasanaeth-au i gynorthwyo ysgolion
gweler y testun ar gyfer gwasanaethau unigol		Gwaith yr awdurdod wrth godi safonau mewn meysydd blaenoriaeth, gan gynnwys cymorth cwricwlwm	Gwaith y Cyngor wrth godi safonau ar gyfer grwpiau penodol o blant a phobl ifanc sy'n agored i niwed	Gwaith y Cyngor wrth godi safonau ar gyfer plant a phobl ifanc ag ADY	Cynllunio rheoli asedau a'r rhaglen cyfalaf addysg	Gwasanaeth- au corfforaethol ar gyfer addysg ac ysgolion
gweler y testun ar gyfer gwasanaethau unigol		Bodloni anghenion a chodi safonau grwpiau penodol	Cymorth ar gyfer presenoldeb mewn ysgolion	Darpariaeth y Cyngor ar gyfer plant a phobl ifanc ag ADY	Derbyn i ysgolion	Gwasanaeth-au cysylltiedig ag eiddo
gweler y testun ar gyfer gwasanaethau unigol		Cymorth cwricwlwm a gwella'r cwricwlwm, ac ehangu cyfleoedd i ddysgu	Cymorth ar gyfer ymddygiad mewn ysgolion	Gwaith y Cyngor gyda rhieni a gofalwyr plant a phobl ifanc ag ADY	Cludiant i'r ysgol a'r cartref	Prydau ysgol
gweler y testun ar gyfer gwasanaethau unigol		Cymorth ar gyfer arweinyddiaeth a rheolaeth ysgolion	Gwerth am arian	Gwerth am arian	Cydlynu'r blynyddoedd cynnar	Gwerth am arian
gweler y testun ar gyfer gwasanaethau unigol		Gwerth am arian			Gwerth am arian	

Cwestiwn		RhS*	Cymorth ar gyfer gwella ysgolion	Hyrwyddo cynhwysiad cymdeithasol	ADY	Mynediad a threfniant ysgolion	Gwasanaethau cymorth
3 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?							
3.1	Ansawdd yr arweinyddiaeth a ddarperir gan aelodau etholedig						
3.2	Ansawdd yr arweinyddiaeth a ddarperir gan uwch swyddogion						
3.3	Ansawdd a phriodoldeb aelodaeth a gweithredoedd wrth weithio mewn partneriaeth						
4 Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn monitro, yn arfarnu ac yn gwella gwasanaethau?							
4.1	yn gwneud trefniadau priodol ar gyfer sicrhau gwelliant parhaus						
4.2	yn sicrhau bod aelodau etholedig yn chwarae rôl briodol mewn rheoli perfformiad						
4.3	yn gweithredu gweithdrefnau hunanarfarnu yn effeithiol, ac yn meddu ar ddealltwriaeth dda o'i gryfderau a'r meysydd i'w gwella						
4.4	â hanes da o sicrhau gwelliannau						
Pa mor dda yw perfformiad yr awdurdod?							
A fydd perfformiad yr awdurdod yn gwella?							

* Ystyr RhS yw 'rheolaeth strategol

7 Cyfansoddiad y tîm arolygu

Mae'r adran hon yn enwi'r arolygwyr, yr enwebai, a lle bo'n berthnasol, yr asesydd cymheiriaid a oedd yn rhan o'r tîm arolygu.

Estyn
Rhagoriaeth i bawb.....Excellence for all
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Atodiad: Meini prawf arolygu

ASSOCIATION OF DIRECTORS OF EDUCATION IN WALES
CYMDEITHAS CYFARWYDDWYR ADDYSG CYMRU

Atodiad: Meini prawf arolygu

Cwestiwn allweddol 1a: Pa mor effeithiol yw cynllunio strategol yr awdurdod? (mewn perthynas â'r awdurdod cyfan)

	Bydd arolygwyr yn arfarnu, yn graddio ac yn adrodd am y graddau y mae'r awdurdod:	Arddangos nodweddion da nodweddiadol:
1.1	â **nodau** priodol a ddatgenir yn glir sy'n: • rhoi sylw i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol perthnasol: • ystyried archwiliadau o angen: ac sy'n • adlewyrchu canlyniadau hunanarfarnu	Mae Cynllun Gwella a dogfennau strategol allweddol[3] yr awdurdod yn gosod nodau a blaenoriaethau strategol yr awdurdod. Maent yn cydymffurfio â gofynion arweiniad perthnasol Llywodraeth y Cynulliad. Mae argymhellion archwilydd allanol yr awdurdod yn fach o ran nifer ac nid ydynt yn nodi unrhyw risgiau sydd heb eu cynnwys eisoes yn nodau a blaenoriaethau datganedig y cyngor. Derbyniwyd y blaenoriaethau addysgol allweddol a nodwyd gan y Cyngor gan yr holl bartneriaid a'r cymunedau lleol eu hunain, ac fe'u hadlewyrchir yn y Strategaeth Gymunedol. Mae Cytundebau Polisi yn adlewyrchu'r blaenoriaethau addysgol a'r amcanion a rennir rhwng yr awdurdod a Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae adrannau'r cyngor i gyd yn deall y flaenoriaeth a roddir i addysg mewn cynlluniau a pholisïau corfforaethol ac yn gwybod sut mae eu gwaith mewn cysylltiad â'r gwasanaeth addysg yn cyfrannu at gyflawni'r flaenoriaeth honno.
1.2	**yn ymgynghori ac yn cyfathrebu'n** effeithiol gyda defnyddwyr gwasanaeth, pobl leol a phartneriaid allweddol	Mae gan uwch swyddogion, aelodau etholedig a rheolwyr ysgol, gan gynnwys llywodraethwyr, ddealltwriaeth glir o flaenoriaethau a chyfeiriad strategol yr awdurdod. Caiff penderfyniadau sy'n effeithio ar y gwasanaeth addysg eu llywio a'u dylanwadu'n helaeth gan ymgynghori da â rhanddeiliaid. Caiff rhanddeiliaid wybodaeth dda am ganlyniadau a rhesymau dros benderfyniadau. Mae'r Cyngor yn effeithiol wrth fwyhau'r nifer sy'n derbyn ac yn ymgysylltu â'i flaenoriaethau, ei bolisïau a'i gynlluniau ymhlith ysgolion, pobl leol a rhanddeiliaid eraill. Ceir trefniadau effeithiol ar gyfer ymgynghori â disgyblion.

[3] Hyd nes 2008, y ddogfen strategaeth allweddol ar gyfer addysg fydd y Cynllun Addysg Unigol. O 2008 ymlaen, y Cynllun Plant a Phobl Ifanc fydd hon.

		Mae ymgynghori a chyfathrebu yn rhoi ystyriaeth briodol i amrywiaeth ieithyddol ac amrywiaeth arall yn y gymuned.
1.3	â **strategaethau, polisïau** a **chynlluniau** ategol, realistig a chydlynol ar gyfer gweithredu gweithgareddau sy'n nodi'n glir sut mae'n mynd i droi nodau yn weithredoedd a pha ganlyniadau mae'n ceisio	Mae gan y Cyngor bolisïau corfforaethol effeithiol ar gyfer bodloni gofynion statudol sy'n effeithio ar ei wasanaethau addysg, gan gynnwys: • cydraddoldeb hiliol a hyrwyddo cytgord hiliol; • cyfle cyfartal ac amrywiaeth (gan gynnwys y gweithlu); • diogelu a hyrwyddo lles plant a phobl ifanc • magu plant yn gorfforaethol; • trefniadau ar gyfer iechyd a diogelwch; • deddfwriaeth gwahaniaethu ar sail anabledd. Mae yna gynlluniau strategol cydlynol[4] a gefnogir gan asesiadau risg priodol a chynlluniau gweithredol effeithiol sy'n cynnwys: • amcanion penodol; • targedau mesuradwy a chyraeddadwy; • cyfrifoldebau a ddyrennir i dimau neu unigolion; • graddfeydd amser sy'n realistig, ac sy'n cynnwys cerrig milltir diffiniedig; • goblygiadau o ran adnoddau sy'n dynodi faint bydd y gwaith yn ei gostio a'r ffynhonnell cyllid. Caiff cynlluniau eu llywio'n glir gan archwilio, dadansoddi data ac arfarniadau. Mae yna gylch cynllunio corfforaethol effeithiol y mae'r holl gyfarwyddiaethau yn cymryd rhan yn weithgar ynddo ac a gydlynir â'r cylch cynllunio ariannol. Mae cynlluniau corfforaethol a chynlluniau strategol eraill yn gyson â'i gilydd, yn glir, wedi'u trefnu'n dda, yn rhesymol ac yn gyraeddadwy. Mae cynllunio strategol yn y gwasanaeth addysg yn adlewyrchu ac yn dylanwadu ar gynllunio corfforaethol. Lle bo'n briodol, mae'r Cytundebau Polisi a chynlluniau strategol eraill wedi'u hadlewyrchu'n glir yng nghynllunio datblygu ysgolion. Ceir cydlyniad ond nid dyblygu rhwng gwahanol gynlluniau, Cytundebau Polisi a mentrau eraill. Mae rhanddeiliaid, gan gynnwys ysgolion, yn ymwybodol o gyflawni'r targedau ac yn ymroi iddynt

[4] Hyd nes 2008, y ddogfen strategol allweddol ar gyfer addysg fydd y Cynllun Addysg Unigol. O 2008 ymlaen, y Cynllun Plant a Phobl Ifanc fydd hon.

1.4	yn effeithiol wrth wneud **penderfyniadau**	Mae'r broses gwneud penderfyniadau, gan gynnwys y rheiny sy'n gysylltiedig â'r gyllideb, yn dryloyw. Ceir cofnod llawn gwybodaeth a dadansoddol o'r holl drafodaethau, yn ffurfiol ac yn anffurfiol, sy'n arwain at benderfyniadau sylweddol sy'n effeithio ar y gwasanaeth addysg. Caiff prosesau gwneud penderfyniadau eu mynegi'n glir ac fe'u defnyddir yn dda i wella'r gwasanaeth addysg. Mae llinellau cyfathrebu, cyfrifoldeb ac atebolrwydd yn glir. Ceir gweithdrefnau effeithiol ar gyfer diffinio a chydlynu gwaith yr adrannau gwahanol.
1.5	yn ystyried **adnoddau'n** strategol ac yn cydweddu'r rhain (staff, cyllid ac ati) â'i flaenoriaethau ar gyfer cyflwyno gwasanaethau	Cysylltir adnoddau'n glir â blaenoriaethau. Mae gweithgareddau wedi'u costio ac maent yn ymarferol. Yn cyd-fynd â'r strategaeth y mae cynllunio ariannol cadarn sy'n gwneud datblygiadau arfaethedig yn ymarferol. Mae'r awdurdod yn rhagweithiol wrth geisio a defnyddio'n effeithiol gyllid allanol i fynd i'r afael â'i flaenoriaethau.
1.6	yn cyfrannu at, yn arwain (lle bo'n berthnasol) ac yn ennyn cefnogaeth **partneriaethau**	Mae partneriaethau gweithgar ac effeithiol yn bodoli, ar bob lefel, er enghraifft gydag ysgolion; y gymuned fusnes; y Gwasanaeth Iechyd a'r heddlu. Caiff amcanion strategol clir, priodol eu gosod ar gyfer partneriaethau, ac mae partneriaid yn glir ynghylch eu rolau a'u cyfrifoldebau priodol. Mae cynllunio yn cysylltu'r prif wasanaethau a ddarperir ar gyfer dysgwyr gan yr awdurdod a phartneriaid allweddol eraill yn effeithiol. Mae'r gwasanaeth Addysg yn cyfrannu'n effeithiol at brif gynlluniau a mentrau gwasanaethau/rhanddeiliaid eraill. Mae gan y gwasanaeth ddealltwriaeth glir o gostau perthnasol a manteision y partneriaethau amrywiol y mae'n cyfrannu atynt. Gallai fod ychwanegiadau at yr adran hon, yn ddibynnol ar ganlyniad yr ymgynghori ar Blant a Phobl Ifanc: Hawliau i Weithredu Partneriaethau Cryfach ar gyfer Gwell Canlyniadau

Cwestiwn allweddol 1b: Pa mor effeithiol yw cynllunio strategol yr awdurdod? (ar gyfer pob maes sy'n cael ei arolygu)

	Bydd arolygwyr yn arfarnu, yn graddio ac yn adrodd am y graddau y mae'r awdurdod:	Arddangos nodweddion da nodweddiadol
1.1	â **nodau** priodol a ddatgenir yn glir sy'n: ➢ rhoi sylw i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol perthnasol: ➢ ystyried archwiliadau o angen: ac sy'n ➢ adlewyrchu canlyniadau hunanarfarnu	Mae Cynllun Gwella a dogfennau strategol allweddol[5] yr awdurdod yn nodi nodau strategol a blaenoriaethau'r awdurdod ar gyfer y maes/meysydd. Maent yn cydymffurfio â gofynion arweiniad perthnasol y Cynulliad. Mae blaenoriaethau allweddol ar gyfer y maes/meysydd cyfrifoldeb, fel a nodwyd gan y Cyngor, wedi'u derbyn gan yr holl bartneriaid a'r cymunedau lleol eu hunain. Lle bo'n berthnasol, mae Cytundebau Polisi yn adlewyrchu'r blaenoriaethau addysgol a'r amcanion a rennir rhwng yr awdurdod a Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae adrannau'r cyngor i gyd yn deall y flaenoriaeth a roddir i'r maes/meysydd cyfrifoldeb mewn cynlluniau a pholisïau corfforaethol, ac yn gwybod sut mae eu gwaith mewn cysylltiad â'r gwasanaeth addysg yn cyfrannu at gyflawni'r flaenoriaeth honno.
1.2	**yn ymgynghori ac yn cyfathrebu'n** effeithiol gyda defnyddwyr gwasanaeth, pobl leol a phartneriaid allweddol	Mae gan uwch swyddogion, aelodau etholedig, cyrff llywodraethol ac uwch dimau rheoli ysgolion ddealltwriaeth glir o flaenoriaethau a chyfeiriad strategol yr awdurdod ar gyfer y maes/meysydd. Caiff penderfyniadau sy'n ymwneud â'r maes/meysydd eu llywio a'u dylanwadu'n helaeth gan ymgynghori da â rhanddeiliaid, gan gynnwys dysgwyr. Caiff rhanddeiliaid wybodaeth dda am ganlyniadau a rhesymau dros benderfyniadau. Mae'r Cyngor yn effeithiol wrth fwyhau'r nifer sy'n derbyn ac yn ymgysylltu â'i flaenoriaethau, ei bolisïau a'i gynlluniau ymhlith ysgolion, pobl leol a rhanddeiliaid eraill. Ceir trefniadau effeithiol ar gyfer ymgynghori â disgyblion. Mae ymgynghori a chyfathrebu yn rhoi ystyriaeth briodol i amrywiaeth ieithyddol ac amrywiaeth arall yn y gymuned.

[5] Hyd nes 2008, y ddogfen strategol allweddol ar gyfer addysg fydd y Cynllun Addysg Unigol. O 2008 ymlaen, y Cynllun Plant a Phobl Ifanc fydd hon.

1.3	â **strategaethau, polisïau** a **chynlluniau** ategol, realistig a chydlynol ar gyfer gweithredu gweithgareddau sy'n nodi'n glir sut mae'n mynd i droi nodau yn weithredoedd a pha ganlyniadau mae'n ceisio	Yn y maes/meysydd, rhoddir ystyriaeth briodol i arferion a strategaethau'r awdurdod ar gyfer: • cydraddoldeb hiliol a hyrwyddo cytgord hiliol; • cyfle cyfartal ac amrywiaeth (gan gynnwys y gweithlu); • diogelu a hyrwyddo lles plant a phobl ifanc • magu plant yn gorfforaethol; • trefniadau ar gyfer iechyd a diogelwch; • deddfwriaeth gwahaniaethu ar sail anabledd. Mae yna gynlluniau strategol cydlynus[6] a gefnogir gan asesiadau risg priodol a chynlluniau gweithredol effeithiol sy'n cynnwys: • amcanion penodol; • targedau mesuradwy a chyraeddadwy; • cyfrifoldebau a ddyrennir i dimau neu unigolion; • graddfeydd amser sy'n realistig, ac sy'n cynnwys cerrig milltir diffiniedig; • goblygiadau o ran adnoddau sy'n dynodi faint bydd y gwaith yn ei gostio a'r ffynhonnell cyllid. Caiff cynlluniau eu llywio'n glir gan archwilio, dadansoddi data ac arfarniadau. Mae yna gylch cynllunio corfforaethol effeithiol y mae'r holl gyfarwyddiaethau yn cymryd rhan yn weithgar ynddo ac a gydlynir â'r cylch cynllunio ariannol. Mae cynlluniau corfforaethol a chynlluniau strategol eraill yn gyson â'i gilydd, yn glir, wedi'u trefnu'n dda, yn rhesymol ac yn gyraeddadwy. Mae cynllunio strategol yn y gwasanaeth addysg yn adlewyrchu ac yn dylanwadu ar gynllunio corfforaethol. Lle bo'n briodol, mae'r Cytundebau Polisi a chynlluniau strategol eraill wedi'u hadlewyrchu'n glir yng nghynllunio datblygu ysgolion. Ceir cydlyniad rhwng y gweithgareddau arfaethedig yn yr haenau amrywiol o gynlluniau, Cytundebau Polisi a mentrau eraill. Mae rhanddeiliaid, gan gynnwys ysgolion, aelodau etholedig a swyddogion, yn ymwybodol o gyflawni'r targedau ar gyfer y maes/meysydd ac yn ymroi iddynt.

[6] Hyd nes 2008, y ddogfen strategol allweddol ar gyfer addysg fydd y Cynllun Addysg Unigol. O 2008 ymlaen, y Cynllun Plant a Phobl Ifanc fydd hon.

1.4	yn effeithiol wrth wneud **penderfyniadau**	Mae'r broses gwneud penderfyniadau, gan gynnwys y rheiny sy'n gysylltiedig â'r gyllideb, yn dryloyw. Ceir cofnod llawn gwybodaeth a dadansoddol o'r holl drafodaethau, yn ffurfiol ac yn anffurfiol, sy'n arwain at benderfyniadau sylweddol sy'n effeithio ar y gwasanaeth addysg. Caiff prosesau gwneud penderfyniadau eu mynegi'n glir ac fe'u defnyddir yn dda i wella'r gwasanaeth addysg. Mae llinellau cyfathrebu, cyfrifoldeb ac atebolrwydd yn glir. Ceir gweithdrefnau effeithiol ar gyfer diffinio a chydlynu gwaith yr adrannau gwahanol.
1.5	yn ystyried **adnoddau'n** strategol ac yn cydweddu'r rhain (staff, cyllid ac ati) â'i flaenoriaethau ar gyfer cyflwyno gwasanaethau	Cysylltir adnoddau'n glir â blaenoriaethau. Mae gweithgareddau wedi'u costio ac maent yn ymarferol. Yn cyd-fynd â'r strategaeth y mae cynllunio ariannol cadarn sy'n gwneud datblygiadau arfaethedig yn ymarferol. Mae'r awdurdod yn rhagweithiol wrth geisio a defnyddio'n effeithiol gyllid allanol i fynd i'r afael â'i flaenoriaethau.
1.6	yn cyfrannu at, yn arwain (lle bo'n berthnasol) ac yn ennyn cefnogaeth **partneriaethau**	Mae partneriaethau gweithgar ac effeithiol yn bodoli, ar bob lefel, er enghraifft gydag ysgolion; y gymuned fusnes; y Gwasanaeth Iechyd; yr heddlu; a darparwyr addysg bellach a dysgu yn y gwaith. Caiff amcanion strategol clir, priodol eu gosod ar gyfer partneriaethau, ac mae partneriaid yn glir ynghylch eu rolau a'u cyfrifoldebau priodol. Mae cynllunio yn cysylltu'r prif wasanaethau a ddarperir ar gyfer dysgwyr gan yr awdurdod a phartneriaid allweddol eraill yn effeithiol. Mae'r Adran Addysg yn cyfrannu'n effeithiol at brif gynlluniau a mentrau adrannau/rhanddeiliaid eraill sy'n berthnasol i'r maes hwn. Mae gan y gwasanaeth ddealltwriaeth glir o gostau perthynol a manteision y partneriaethau amrywiol y mae'n cyfrannu atynt. Gallai fod ychwanegiadau at yr adran hon, yn ddibynnol ar ganlyniad yr ymgynghori ar Blant a Phobl Ifanc: Hawliau i Weithredu Partneriaethau Cryfach ar gyfer Gwell Canlyniadau

Cwestiwn 2: Pa mor effeithiol yw gwasanaethau a sut mae perfformiad yn cymharu, gan gynnwys gwerth am arian? (trosolwg)

Dylai arolygwyr arfarnu, graddio ac adrodd am effeithiolrwydd a gwerth am arian:				
2.1 Cymorth ar gyfer gwella ysgolion	**2.2 Hyrwyddo cynhwysiad cymdeithasol a lles**	**2.3 Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)**	**2.4 Mynediad a threfniadaeth ysgolion**	**2.5 Gwasanaethau cymorth**
2.1.1 Cymorth, monitro, herio ac ymyrryd gan yr awdurdod lleol	2.2.1 Gwaith y Cyngor i fodloni'i ddyletswyddau statudol mewn perthynas â: • phlant y gofelir amdanynt; • disgyblion sydd wedi'u gwahardd; • hyrwyddo cydraddoldeb hiliol a brwydro yn erbyn hiliaeth; • atal a cheisio datrys bwlio • diogelwch a lles plant.	2.3.1 Gwaith y Cyngor i fodloni'i rwymedigaethau statudol mewn perthynas â phlant a phobl ifanc a chanddynt anghenion dysgu ychwanegol (ADY).	2.4.1 Darpariaeth ystod a nifer priodol o leoedd mewn ysgolion	2.5.1Gwasanaethau i gynorthwyo ysgolion
2.1.2 Gwaith yr awdurdod wrth godi safonau mewn meysydd blaenoriaeth, gan gynnwys cymorth cwricwlwm	2.2.2 Gwaith y Cyngor wrth godi safonau ar gyfer grwpiau penodol o blant a phobl ifanc sy'n agored i niwed	2.3.2 Gwaith y Cyngor wrth godi safonau ar gyfer plant a phobl ifanc ag ADY	2.4.2 Cynllunio rheoli asedau a'r rhaglen cyfalaf addysg, (gan gynnwys iechyd a diogelwch)	2.5.2 Gwasanaethau corfforaethol ar gyfer addysg, gan gynnwys ysgolion

2.1.3 Bodloni anghenion a chodi safonau grwpiau penodol	2.2.3 Cymorth ar gyfer presenoldeb mewn ysgolion	2.3.3 Darpariaeth y Cyngor ar gyfer plant a phobl ifanc ag ADY, gan gynnwys darpariaeth a gomisiynir a/ neu a ddarperir gan neu gydag asiantaethau eraill	2.4.3 Derbyn i ysgolion	2.5.3 Gwasanaetha u sy'n gysylltiedig ag eiddo
2.1.4 Cymorth cwricwlwm a gwella'r cwricwlwm, ac ehangu cyfleoedd i ddysgu	2.2.4 Cymorth ar gyfer ymddygiad mewn ysgolion	2.3.4 Gwaith y Cyngor gyda rhieni a gofalwyr plant a phobl ifanc ag ADY.	2.4.4 Cludiant i'r ysgol a'r cartref	2.5.4 Prydau ysgol
2.1.5 Cymorth ar gyfer arweinyddiaet h a rheolaeth ysgolion, gan gynnwys cymorth i lywodraethwyr ysgol	2.2.5 Gwerth am arian	2.3.5 Gwerth am arian	2.4.5 Cydlynu'r blynyddoedd cynnar (ar ôl i Ddeddf Plant 2004 gychwyn)	2.5.5 Gwerth am arian
2.1.6 Gwerth am arian			2.4.6 Gwerth am arian	

Cwestiwn 2: Pa mor effeithiol yw gwasanaethau a sut mae perfformiad yn cymharu, gan gynnwys gwerth am arian? (trosolwg)

2.1 Cymorth ar gyfer gwella ysgolion

	Bydd arolygwyr yn arfarnu, yn graddio ac yn adrodd am :	Arddangos nodweddion da nodweddiadol
2.1.1	Cymorth, monitro, herio ac ymyrryd gan yr awdurdod lleol	Mae gan y Cyngor weithdrefnau clir ac wedi'u gwahaniaethu'n briodol ar gyfer monitro, herio ac ymyrryd gyda ffocws ar ysgolion sy'n tanberfformio, ysgolion isel eu perfformiad ac ysgolion sy'n gweithredu dan amgylchiadau heriol. Ymgynghorwyd yn llawn ag ysgolion ar y gweithdrefnau. Ceir gwahaniaeth clir rhwng y gwasanaethau a gynigir gan y Cyngor i ddiwallu ei gyfrifoldebau statudol, gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu cynnig i ysgolion brynu o'u cyllidebau dirprwyedig a gwasanaethau y gall y Cyngor frocera gan ddarparwyr eraill os yw ysgolion yn gofyn iddynt wneud hynny. Mae ysgolion yn deall y patrwm hwn o gyflwyno gwasanaethau a'u cyfrifoldebau am wella ysgolion. Mae'r Cyngor yn effeithiol wrth sicrhau bod ysgolion yn cael mynediad at ystod cost effeithiol o wasanaethau i gefnogi gwella ysgolion a bod ysgolion yn gwybod sut i brynu gwasanaethau sy'n berthnasol i'w hanghenion. Mae'r Cyngor yn cefnogi ysgolion yn dda wrth ddatblygu gweithdrefnau effeithiol ar gyfer hunanarfarnu. Cysylltir y rhain â chynllunio datblygu ysgolion. Mae'r gweithdrefnau'n nodi'n glir ac yn fanwl gywir y meysydd y mae angen eu gwella a'r gefnogaeth sydd ei hangen. Mae ymweliadau monitro gan swyddogion a/neu ymgynghorwyr yn arwain at adroddiadau ysgrifenedig clir sy'n cynnwys barnau ac argymhellion diamwys. Defnyddir yr adroddiadau gan lywodraethwyr a phenaethiaid i gynllunio ar gyfer gwelliant. Mae cymorth y Cyngor ar gyfer gosod targedau wedi arwain at ysgolion yn cael targedau cadarn a heriol ond realistig. Mae ysgolion yn ymateb yn dda i heriau a osodir gan y Cyngor ac yn sicrhau gwelliannau sylweddol mewn canlyniadau dros amser.

		Data Mae'r Cyngor yn rhoi ystod dda a phriodol o ddata perfformiad, meincnodi a chymharol i ysgolion. Mae hwn ar gael yn rhwydd ac mae'n hawdd ei ddeall. Mae'r data'n cynnwys gwybodaeth am berfformiad lleol grwpiau gwahanol o ddisgyblion. Dosberthir data yn effeithiol ar adegau priodol i alluogi disgyblion i'w defnyddio'n dda. Mae trosglwyddo data yn effeithiol ar adegau pan fydd disgyblion yn newid ysgolion. Mae'r Cyngor yn cefnogi ysgolion yn effeithiol wrth ddefnyddio data i sicrhau gwelliant yn y tymor byr ac i lywio cynllunio tymor hwy. Mae'r Cyngor yn casglu, ac yn dadansoddi'n dda, lledaeniad priodol o ddata yn ymestyn dros ystod lawn ei swyddogaethau. Mae hyn yn cynnwys data ar berfformiad ysgolion/disgyblion (gan gynnwys data ar gyfer grwpiau gwahanol o ddisgyblion fel bechgyn a merched, disgyblion o leiafrifoedd ethnig a phlant y gofelir amdanynt), presenoldeb, gwaharddiadau, anghenion dysgu ychwanegol a rheolaeth ariannol. Mae'r Cyngor yn defnyddio'r data hwn i fonitro perfformiad a chynllunio ar gyfer gwelliant. **Ysgolion sy'n achosi pryder** Mae monitro yn effeithiol wrth nodi diffygion yn gynnar. Mae'r cyngor yn nodi ysgolion sy'n tanberfformio ac ysgolion sydd ond yn dangos rhai arwyddion o welliant. Eir i'r afael ag anawsterau mewn ysgolion sy'n achosi pryder yn brydlon ac yn llym. Targedir dyraniad y Cyngor o'i adnoddau gwella ysgolion a gedwir yn ganolog at yr ysgolion hynny y mae ei angen fwyaf. Mae'r meini prawf ar gyfer lefelau ymyrraeth wedi'u gwahaniaethu a'u diffinio'n glir yn amlwg a chawsant eu cytuno arnynt â'r ysgolion. Caiff cymorth ac ymyrraeth y Cyngor mewn ysgolion sy'n tanberfformio eu cyfeirio trwy gynllun gweithredu clir, a gytunwyd arno rhwng y Cyngor a'r ysgol. Mae'r cynllun gweithredu yn cynnwys gweithdrefnau i sicrhau gostyngiad addas, graddol yn lefel cymorth y Cyngor. Mae'r Cyngor yn monitro cynnydd yn agos mewn ysgolion sy'n tanberfformio. Mae'r adroddiadau i'r pennaeth a'r corff llywodraethol yn rheolaidd ac yn helpu sicrhau gwelliant.

		Caiff cynnydd ysgolion sy'n achosi pryderu ei adolygu'n rheolaidd gan uwch reolwyr y Cyngor a'u hadrodd arnynt yn rheolaidd i'r aelodau etholedig. Mae'r Cyngor yn defnyddio ystod lawn ei rymoedd cyfreithiol pan nad yw ysgolion yn gwneud digon o gynnydd. Mae Estyn yn tynnu ymaith ysgolion mewn categorïau 'sy'n achosi pryder' o'r categorïau hynny o dan ddwy flynedd.
2.1.2	Gwaith yr awdurdod wrth godi safonau mewn meysydd blaenoriaeth, gan gynnwys cymorth cwricwlwm	Mae strategaeth y Cyngor ar gyfer codi safonau mewn meysydd blaenoriaeth (e.e. llythrennedd, rhifedd, TGCh a CA3) yn glir, yn gydlynol ac yn cael ei deall yn dda gan ysgolion. Mae'r strategaeth yn bodloni'r nodau a osodir yn y fframweithiau perthnasol ar gyfer Cymru. Mae strategaethau yn cwmpasu gweledigaeth a rhesymeg mentrau perthnasol Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r strategaeth yn rhoi ystyriaeth dda i'r angen i: • godi safonau llythrennedd yn y Gymraeg a'r Saesneg, a datblygu hyfedredd dwyieithog disgyblion yn unol ag arweiniad LlCC; • rhoi cymorth effeithiol i bob plentyn yn y blynyddoedd cynnar; • codi safonau ym medrau sylfaenol ac allweddol disgyblion; • mynd i'r afael â gwahaniaethau mewn cyflawniad rhwng bechgyn a merched; • cynllunio ar gyfer pontio effeithiol rhwng darparwyr a chyfnodau allweddol; • sicrhau bod asesu yn gywir, yn gyson ac yn llywio dysgu; a • nodi a thargedu'n gywir yr ysgolion hynny gydag anghenion penodol. Ymgynghorwyd yn dda ag ysgolion ynghylch natur ac amseru'r cymorth. Maent yn gwybod pa lefel o gymorth i'w ddisgwyl o ganlyniad i'r Cyngor yn nodi eu hanghenion penodol a thargedu dilynol ysgolion. Mae'r Cyngor yn sicrhau hyfforddiant ansawdd uchel digonol yn y Gymraeg a'r Saesneg, lle bo angen, ar gyfer mentrau blaenoriaeth. Mae'r Cyngor yn hyrwyddo lles (ac yn cefnogi ysgolion wrth wneud hynny) trwy waith rhagweithiol mewn: • ABCh ac addysg iechyd • Chwaraeon ac iechyd corfforol • Adloniant a Dysgu y Tu Allan i Oriau Ysgol

		• profiadau a gweithgareddau i gefnogi haenau perthnasol Llwybrau Dysgu 14-19 Caiff cysylltiadau da eu ffurfio gyda mentrau cysylltiedig a phrosiectau eraill mewn meysydd blaenoriaeth. Cyflwynir mentrau'r cyngor gan arbenigwyr credadwy. Rheolir y staff sy'n cyflwyno'r strategaeth yn dda a chânt wybodaeth briodol.
2.1.3	Bodloni anghenion a chodi safonau grwpiau penodol	Caiff polisïau'r Cyngor ar gyfle cyfartal, dwyieithrwydd a mynd i'r afael ag aflonyddwch hiliol eu deall yn dda a'u defnyddio gan ysgolion. Mae'r polisïau'n gynhwysfawr, yn gyfoes ac yn cynnwys gweithdrefnau effeithiol ar gyfer monitro ac arfarnu yn ogystal â nodi camau i'w datblygu. Mae'r Cyngor yn monitro cyrhaeddiad, presenoldeb, gwaharddiadau, symudedd a derbyniadau grwpiau sy'n agored i niwed. Mae ganddo olwg glir o'r graddau a'r rhesymau ar gyfer unrhyw wendidau ac mae'n cymryd camau lle bo angen i ddiogelu gwelliannau mewn canlyniadau. Defnyddiwyd arian o dan y grant cyflawniad lleiafrifoedd ethnig a'r grantiau addysg i deithwyr yn dda mewn ysgolion yn unol â'r meini prawf sy'n nodi anghenion. Caiff y defnydd o'r grant ei fonitro'n drwyadl ac yn effeithiol ac mae ei gysylltiadau â gwella ysgolion wedi'u sefydlu'n dda. Mae'r Cyngor yn lledaenu arfer dda o ran cyflawniad plant lleiafrifoedd ethnig, teithwyr a cheiswyr lloches. Mae'n cynnig cyngor da, a thargedir HMS at wendidau, a/neu mae'n gwneud trefniadau brocera gwybodus. Mae hyn wedi arwain at welliannau mewn ysgolion. Datblygwyd arbenigedd athrawon y brif ffrwd i gefnogi dysgwyr lleiafrifoedd ethnig, teithwyr a cheiswyr lloches ac i ddarparu cwricwlwm amrywiol, yn effeithiol. Ceir darpariaeth hyfyw ac effeithiol ar gyfer plant Teithwyr.
2.1.4	Cymorth cwricwlwm a gwella'r cwricwlwm, ac ehangu cyfleoedd i ddysgu	Mae'r Cyngor wedi nodi'n gywir yr angen i ddarparu cyfleoedd dysgu ychwanegol a chymorth mewn meysydd fel: • gwersi cerddoriaeth; • Athrawon Bro; • gwasanaeth llyfrgell ysgolion; • Dysgu y Tu Allan i Oriau Ysgol (DAOY); • addysg gorfforol a chwaraeon; a

		• phrofiadau a gweithgareddau i gefnogi haenau heb fod yn ffurfiol ac anffurfiol Llwybrau Dysgu 14-19. Mae wrthi'n cefnogi darpariaeth ystod briodol o weithgareddau i fodloni anghenion yn y meysydd hyn mewn partneriaeth â gwasanaethau a darparwyr eraill.
2.1.5	Cymorth ar gyfer arweinyddiaeth a rheolaeth ysgolion, gan gynnwys cymorth i lywodraethwyr ysgol	Mae'r Cyngor wedi nodi anghenion rheoli a datblygu cyffredinol llywodraethwyr ac uwch reolwyr a rheolwyr canol mewn ysgolion ar draws yr awdurdod. Ceir rhaglen systematig o gymorth a datblygu ar gyfer uwch reolwyr a rheolwyr canol gan gynnwys rhaglenni mentora, ymgynghoriaeth ac arweinyddiaeth, a lledaenu arfer dda. Mae'r Cyngor yn dadansoddi cryfderau a gwendidau cyffredinol mewn rheolaeth ar draws yr awdurdod yn dda ac mae ganddo strategaeth effeithiol ar gyfer gwella cyffredinol lle mae angen hyn. Mae gan y Cyngor bolisïau effeithiol i reoli recriwtio llywodraethwyr gan gynnwys o grwpiau lleiafrifol. Mae'r polisïau'n arwain at gyfraddau isel neu gyfraddau sy'n gostwng o swyddi llywodraethwyr gwag. Mae perthnasoedd y Cyngor gyda llywodraethwyr a rheolwyr ysgol yn rhoi pwyslais dyledus ar annibyniaeth ysgolion. Mae'r Cyngor yn sicrhau bod llywodraethwyr yn cael gwybodaeth berthnasol wedi'i meincnodi am berfformiad yr ysgol, gan gynnwys dadansoddi data ariannol a pherfformiad disgyblion. Mae'r Cyngor yn sicrhau bod llywodraethwyr yn cael arweiniad defnyddiol ar sut y dylent ddefnyddio'r data hwn. Mae rhaglenni cymorth a hyfforddiant y Cyngor yn hynod berthnasol ac yn ymatebol i anghenion llywodraethwyr unigol, gan gynnwys y rhai sy'n newydd i'r rôl, ac i anghenion cyrff llywodraethol cyfan. Caiff ansawdd yr hyfforddiant ei fonitro a chaiff ei effaith ei arfarnu. Monitrir presenoldeb mewn hyfforddiant yn ofalus. Mae'r Cyngor yn ddefnyddiol ac yn hawdd mynd ato; mae'n ymateb yn gyflym ac yn effeithiol i argyfyngau ac achosion brys.
2.1.6	Gwerth am arian	Mae'r Cyngor yn cymharu ei gostau a'i ganlyniadau gyda'r rheiny o awdurdodau eraill. Mae'r Cyngor yn adolygu'n rheolaidd ei wasanaethau a'i bolisïau cysylltiedig er mwyn sicrhau gwelliant parhaus a

		rhoddir ystyriaeth ddyledus i ddarbodusrwydd, effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd.

Cwestiwn 2: Pa mor effeithiol yw gwasanaethau a sut mae perfformiad yn cymharu, gan gynnwys gwerth am arian?

2.2 Hyrwyddo cynhwysiad cymdeithasol a lles dysgwyr

	Bydd arolygwyr yn arfarnu, yn graddio ac yn adrodd am :	Arddangos nodweddion da nodweddiadol
2.2.1	Gwaith y Cyngor i fodloni'i ddyletswyddau statudol mewn perthynas â: • phlant y gofelir amdanynt; • disgyblion sydd wedi'u gwahardd; • hyrwyddo cydraddoldeb hiliol a brwydro yn erbyn hiliaeth; • atal a cheisio datrys bwlio; a • diogelwch a lles plant	Mae'r Cyngor yn diwallu'n drylwyr ei ddyletswydd fel rhiant corfforaethol. Mae'n hyrwyddo cyflawniad addysgol yn ogystal â chynnig cymorth bugeiliol da i blant yn ei ofal. Mae'r Cynllun Gwasanaethau Plant a'r Cynllun Plant yn Gyntaf yn diffinio strategaeth glir a chydlynol sy'n galluogi plant y gofelir amdanynt i wneud cynnydd da. Mae'r Cyngor yn cael adroddiadau rheolaidd ar gyrhaeddiad plant y gofelir amdanynt, yn gosod targedau ystyrlon ar gyfer gwelliant ac yn monitro cynnydd addysgol. Mae'r Cyngor yn monitro ansawdd y ddarpariaeth addysgol ar gyfer plant y gofelir amdanynt a osodir y tu allan i'r sir. Mae'r Adran Addysg a'r Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cytuno ar weithdrefnau effeithiol ar gyfer cydweithio a rhannu gwybodaeth ar y cyd am blant y gofelir amdanynt. Mae'r Cyngor yn darparu'n brydlon addysg amser llawn ansawdd uchel ar gyfer disgyblion sydd wedi'u gwahardd a throseddwyr ifanc. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn cymryd rhan yn llawn, yn gwneud cynnydd ac yn cael eu hailintegreiddio'n llwyddiannus i ddarpariaeth y brif ffrwd. Mae'r Cyngor yn monitro'r defnydd o wahardd mewn ysgolion sy'n cynnwys cyfraddau a hyd y gwaharddiadau tymor sefydlog, cyfradd y gwaharddiadau parhaol a nifer y gwaharddiadau a wrthdrowyd gan banelau apêl annibynnol. Mae'n cymryd camau effeithiol i leihau cyfraddau gwahardd. Mae'r Cyngor yn rhoi arweinyddiaeth dda i ysgolion trwy ddrafftio a dosbarthu polisïau a gweithdrefnau clir ar gyfer mynd i'r afael â phob ffurf ar hiliaeth a hyrwyddo cytgord hiliol.

		Mae'r Cyngor yn cynnig cyngor a chymorth defnyddiol i ysgolion hyrwyddo gweithredu polisïau gwrthfwlio effeithiol. Mae'r Cyngor wedi derbyn yn ffurfiol argymhellion adroddiad y pwyllgor ymchwilio i farwolaeth Stephen Lawrence ac mae'n rhoi cynllun gweithredu ar waith sy'n ymateb i argymhellion yr adroddiad. Datblygir gweithdrefnau i fonitro digwyddiadau o aflonyddwch hiliol yn y gweithle ac mewn ysgolion, ac mae'r Cyngor yn cymryd camau cadarn i gefnogi ei bolisïau. Mae'r Cyngor yn cymryd rôl arweiniol wrth gydlynu partneriaethau, sefydlu Byrddau Lleol Diogelu Plant a rhannu cyllidebau. Mae'r Cyngor yn hyrwyddo trefniadau gweithio da rhwng ysgolion a gweithwyr cymdeithasol ac mae'n dilyn y rhain i fyny gyda'r adran gwasanaethau cymdeithasol pan fydd ysgolion yn adrodd am anawsterau.
2.2.2	Gwaith y Cyngor wrth godi safonau ar gyfer grwpiau penodol o blant a phobl ifanc sy'n agored i niwed: • grwpiau lleiafrifoedd ethnig; • ffoaduriaid/ ceiswyr lloches; • plant y gofelir amdanynt; • rhieni ifanc a menywod ifanc beichiog; • troseddwyr ifanc; • plant teuluoedd dan amgylchiadau anodd; • gofalwyr ifanc; • disgyblion mewn perygl o	Mae'r Cyngor yn diwallu gofyniad Deddf Plant 2004 i sicrhau bod yr holl blant a phobl ifanc, gan gynnwys grwpiau sy'n agored i niwed: • yn cael eu hawl cyfartal i addysg; • yn mwynhau dysgu ac yn cyflawni safonau uchel; • yn mynd i'r ysgol yn rheolaidd; ac yn • cymryd rhan yn llawn mewn addysg. Mae gan y Cyngor weithdrefnau effeithiol i nodi disgyblion nad ydynt yn yr ysgol ac i sicrhau nad oes yr un plentyn na pherson ifanc yn cael eu colli i addysg ac i nodi disgyblion sydd mewn perygl o gael eu colli i addysg os ydynt yn symud i mewn i'r ardal. Mae gan y Cyngor systemau atgyfeirio effeithiol sy'n hysbys i ysgolion, y gwasanaethau cymdeithasol a gweithwyr iechyd proffesiynol. Ceir cysylltiadau da â phob partner ar lefelau strategol a gweithredol, gan gynnwys protocolau clir ar gyfer rhannu gwybodaeth berthnasol. Mae'r systemau'n effeithiol wrth nodi'n brydlon ddisgyblion sydd mewn perygl o dynnu'n ôl; o'r ysgol a/neu dangyflawni a, lle bo'n bosibl, yn eu hatal rhag gwneud hynny.

	fwlio homoffobaidd; • disgyblion a addysgir ar wahân i yn yr ysgol; a • Sipsiwn a Theithwyr.	Mae gan y Cyngor systemau i nodi plant a phobl ifanc y mae eu lles a'u cyflawniad mewn perygl, yn ôl amgylchiadau lleol. Mae'n bodloni anghenion y plant a phobl ifanc. Mae'r Cyngor yn monitro ac yn arfarnu effaith ei strategaeth ar gyfranogiad a chyflawniad ac yn cymryd camau amserol i fynd i'r afael â diffygion. Mae'r Cyngor yn cynnig addysg amser llawn addas ar gyfer plant oed ysgol a phobl ifanc nad ydynt yn yr ysgol. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn mynychu'n rheolaidd, yn gwneud cynnydd da ac yn cael eu hailintegreiddio'n llwyddiannus i ddarpariaeth y brif ffrwd. Ceir gweithdrefnau effeithiol i fonitro addysg plant a phobl ifanc a addysgir y tu allan i'r ysgol, gan gynnwys plant a addysgir gartref gan eu rheini. Mae'r Cyngor yn rhoi arweiniad defnyddiol i rieni sy'n addysgu eu plant gartref pan ofynnir iddynt wneud hynny. Mae'r Cyngor yn rhoi arweiniad ansawdd da a mynediad i hyfforddiant ar gyfer staff ysgolion i fodloni anghenion priodol grwpiau sy'n agored i niwed. Lle bo'n berthnasol, mewnbwn aml-asiantaeth yw hwn. Mae'r Cyngor wrthi'n hyrwyddo pwysigrwydd hyfforddiant gydag ysgolion. Mae'r Cyngor wedi noddi prosiectau a mentrau i wella lles a chyrhaeddiad grwpiau o ddisgyblion sy'n agored i niwed, a cheir tystiolaeth arwyddocaol o effaith fanteisiol. Ymgynghorir â phlant unigol, pobl ifanc a chymunedau a gwrandewir arnynt pan fydd penderfyniadau'n cael eu gwneud ynghylch: • eu dyfodol eu hunain; • darpariaeth leol; a • chynllunio a rheoli gwasanaethau newydd.
2.2.3	Cymorth ar gyfer presenoldeb mewn ysgolion	Mae cyfraddau presenoldeb yn uchel, a/neu'n gwella'n gynt nag yn genedlaethol neu mewn AALlau tebyg. Mae absenoldebau anawdurdodedig yn gostwng. Mae gan y Cyngor bolisi clir a strwythuredig ar bresenoldeb a ddeellir yn dda gan ysgolion ac sydd o gymorth i rieni ddiwallu eu cyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf Addysg 1996.

		Ceir strategaeth effeithiol ar gyfer hyrwyddo presenoldeb ysgol rheolaidd, y mae ysgolion yn ei deall, ac a gaiff ei hintegreiddio'n dda i mewn i bob cynllun allweddol perthnasol. Ceir trefniadau effeithiol ar gyfer monitro presenoldeb dysgwyr 14-16 oed a allai fod yn cael darpariaeth mewn safle y tu allan i'r ysgol. Ceir cyswllt a chydlynu effeithiol iawn rhwng gwasanaethau perthnasol y cyngor a pherthnasoedd gweithio da gydag ysgolion ac asiantaethau eraill fel y tîm troseddau ieuenctid lleol, yr heddlu a'r llysoedd. Bodlonir yr holl gyfrifoldebau statudol a chyfreithiol yn llawn. Gwneir defnydd cyson a phriodol o bwerau cyfreithiol. Mae'r Cyngor yn mynd i'r afael â phresenoldeb grwpiau penodol a/neu agored i niwed, (e.e. plant mewn gofal cyhoeddus a phlant teithwyr) ac yn mynd i'r afael ag achosion penodol o ddiffyg presenoldeb (gan gynnwys bwlio ac aflonyddwch). Monitrir data ar bresenoldeb yn effeithiol. Nodir gwendidau ac eir i'r afael â nhw'n gyflym. Mae'r Cyngor yn rhoi cymorth targedig i ysgolion i wella presenoldeb yn seiliedig ar ddadansoddiad clir o angen a meini prawf tryloyw. Mae'r Cyngor yn rhoi arweiniad ystyrlon a chynhwysfawr i ysgolion ar reoli presenoldeb ac mae'n lledaenu arfer dda yn effeithiol.
2.2.4	Cymorth ar gyfer ymddygiad mewn ysgolion	Mae cyfraddau gwaharddiadau parhaol a thymor sefydlog yn gostwng, neu mae nifer y gwaharddiadau yn is na mewn awdurdodau tebyg. Ceir trefniadau effeithiol ar gyfer pobl ifanc sy'n dod yn ôl i mewn i'r ysgol. Mae pobl ifanc yn parhau yn yr ysgol, yn ennill cyfraddau presenoldeb boddhaol ac yn gwneud cynnydd addysgol da. Mae'r Cyngor wedi gosod targedau clir a heriol ar gyfer y gostyngiad yng nghyfradd y gwaharddiadau parhaol a thymor sefydlog. Mae yna welliannau gan ysgolion a grwpiau o ddisgyblion a dargedwyd. Mae strategaeth y Cyngor a'i chynlluniau ar gyfer bodloni'r targedau yn glir ac yn seiliedig ar archwiliadau o anghenion.

		Caiff cynnydd wrth fodloni'r targedau ei fonitro'n rheolaidd ac mae dadansoddi data yn ofalus yn arwain at weithredu priodol. Mae'r Cyngor yn rhoi arweiniad cynhwysfawr i ysgolion ar arfer dda wrth reoli ymddygiad. Mae'n cynnig mynediad at hyfforddiant ansawdd da. Ceir cefnogaeth effeithiol, hawdd mynd ati, i ysgolion ar gyfer rheoli ymddygiad. Mae gan y gwasanaeth berthynas weithio dda gydag ysgolion ac asiantaethau eraill ar sail gweithdrefnau clir.
2.2.5	Gwerth am arian	Mae'r Cyngor yn dyrannu cymorth a/neu gyllid dirprwyedig ar sail meini prawf clir. Targedir cymorth a/neu gyllid yn dda yn ôl angen. Mae ysgolion yn cael cymorth a chyngor ar y defnydd o arian a ddirprwyir. Mae'r Cyngor yn monitro effaith arian dirprwyedig ar wella ymddygiad. Mae'r Cyngor yn cymharu ei gostau a'i ganlyniadau gyda'r rheiny o awdurdodau eraill. Mae'r Cyngor yn adolygu ei wasanaethau yn rheolaidd er mwyn sicrhau gwelliant parhaus gydag ystyriaeth ddyledus i ddarbodusrwydd, effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd.

Cwestiwn 2: Pa mor effeithiol yw gwasanaethau a sut mae perfformiad yn cymharu, gan gynnwys gwerth am arian?

2.3 Anghenion Dysgu Ychwanegol

Mae'r term ADY yn berthnasol i blant a phobl ifanc y mae eu hanghenion dysgu yn ychwanegol at y mwyafrif o'u cymheiriaid. Mae plant a phobl ifanc gydag ADY yn cynnwys y rhai:

- gydag AAA;
- sy'n anabl;
- gydag anghenion meddygol;
- gydag anawsterau emosiynol, cymdeithasol ac ymddygiad, gan gynnwys y rhai sydd â ffobia o'r ysgol a'r rheiny sy'n gwrthod mynd i'r ysgol;
- sy'n fwy galluog a dawnus; a'r rheiny
- sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.

	Bydd arolygwyr yn arfarnu, yn graddio ac yn adrodd am:	Arddangos nodweddion da nodweddiadol
2.3.1	Gwaith y Cyngor i fodloni'i rwymedigaethau statudol mewn perthynas â phlant a phobl ifanc a chanddynt anghenion dysgu ychwanegol (ADY).	Mae'r Cyngor yn gwneud yn siŵr bod pob plentyn a pherson ifanc gydag anghenion dysgu ychwanegol o 5 i 16 oed yn cael addysg amser llawn briodol sy'n bodloni eu hanghenion unigol. Mae'r Cyngor yn cynnig i'r holl blant a phobl ifanc a chanddynt ddatganiadau o AAA y ddarpariaeth ychwanegol y mae eu datganiad yn rhoi'r hawl iddi. Pan fydd datganiadau o AAA yn gofyn amdano, mae'r Cyngor yn sicrhau darpariaeth amser llawn ar gyfer plant o dan 5 oed a phobl ifanc dros 16 oed. Mae'r Cyngor yn diwallu gofynion Deddf AA ac Anabledd 2001. Yn benodol, mae'n sicrhau bod: • datganiadau o AAA o ansawdd da ac yn cael eu llunio'n gyflym; • adolygiadau statudol o gynnydd yn cael eu cynllunio, eu rheoli a'u cydlynu'n effeithiol; a bod • sefydliadau addysgol yn gwneud addasiadau rhesymol i'r adeiladau, y cwricwlwm a darpariaeth y wybodaeth i roi mynediad i bobl gydag anableddau. Mae'r Cyngor yn diwallu gofynion Deddf Plant 2004 ac adran 175 Deddf Addysg 2002. Yn benodol, mae'n sicrhau bod: • diogelu polisïau a gweithdrefnau yn hyrwyddo diogelwch a lles plant a phobl ifanc gydag ADY yn effeithiol; a'i fod • yn hyrwyddo cyflawniad addysgol plant y gofelir amdanynt a chanddynt ADY.
2.3.2	Gwaith y Cyngor wrth godi safonau ar gyfer plant a phobl ifanc ag ADY	Mae'r Cyngor yn rhoi hyfforddiant effeithiol i staff mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar ac mewn ysgolion i'w galluogi i fodloni anghenion plant a phobl ifanc ag ADY. Mae'r Cyngor yn datblygu gallu'r holl leoliadau addysgol i fodloni anghenion dysgu ychwanegol disgyblion trwy helpu ysgolion i: • fodloni eu cyfrifoldebau statudol mewn perthynas â disgyblion ag ADY; • rhoi cymorth a chyfleoedd dysgu priodol i ddisgyblion ag ADY; • gweithio'n effeithiol gydag asiantaethau partner i gael

		cymorth arbenigol ar gyfer disgyblion unigol pan fo angen; a • monitro ac arfarnu canlyniadau ar gyfer grwpiau gwahanol o ddisgyblion fel rhan o'r broses o hunanarfarnu ysgolion. Mae gwasanaethau allymestyn, gan gynnwys unrhyw rai a ddarperir gan ysgolion arbennig, yn cael effaith gadarnhaol ar ganlyniadau ar gyfer plant a phobl ifanc ag ADY. Mae'r Cyngor yn monitro ac yn arfarnu effaith ei bolisïau a'i ddarpariaeth ar gyflawniadau plant a phobl ifanc ag ADY, ac mae'n cymryd camau amserol i fynd i'r afael ag unrhyw danberfformiad.
2.3.3	Darpariaeth y Cyngor ar gyfer plant a phobl ifanc ag ADY, gan gynnwys darpariaeth a gomisiynir a/ neu a ddarperir gan neu gydag asiantaethau eraill.	Mae gwaith y Cyngor yn effeithiol wrth: • helpu plant a phobl ifanc ag ADY i wneud cynnydd addysgol da mewn perthynas â'u targedau dysgu unigol; • atal gwahardd disgyblion ag ADY; a • chyflawni safonau uchel o bresenoldeb gan ddisgyblion ag ADY. Nodir plant ag ADY ac asesir eu hanghenion yn ddigon cynnar er mwyn bodloni'u hanghenion. Ceir protocolau clir a ddefnyddir yn gyson ar draws asiantaethau ar gyfer asesu anghenion unigol plant a phobl ifanc, ac ar gyfer penderfynu ar ddarpariaeth. Mae plant a phobl ifanc yn cael mynediad at ystod briodol o gymorth i fodloni eu hanghenion. Cydlynir y ddarpariaeth addysgol a hyfforddiant ar gyfer plant a phobl ifanc ag ADY sy'n bodloni eu hanghenion o ran cwricwlwm, staffio, offer a chludiant yn effeithiol. Mae disgyblion ag anawsterau mewn iechyd corfforol neu feddyliol na allant fynd i'r ysgol yn cael cymaint o addysg â phosibl, ac yn cynnal cysylltiadau da â'u hysgolion. Caiff cynnydd plant a phobl ifanc unigol ag ADY ei adolygu a'i gyfathrebu'n rheolaidd rhwng asiantaethau, a chaiff targedau eu diwygio'n unol â hynny. Mae datganiadau o ADY yn lleihau o ran nifer yn sgil asesiadau a darpariaeth cynharach. Caiff plant a phobl ifanc ag ADY eu paratoi a'u cefnogi'n briodol pan fyddant yn pontio rhwng cyfnodau gwahanol addysg a lleoliadau gwahanol.

		Mae plant a phobl ifanc ag ADY yn cael gwybodaeth, cyngor ac arweiniad diduedd ar hyfforddiant addysgol a chyfleoedd cyflogaeth ôl-16. Mae disgyblion ag ADY, yn enwedig y rhai ag ymddygiad anodd neu'r rheiny sy'n amharod i fynd i'r ysgol, yn cael cymorth targedig i wella'u hymddygiad a'u presenoldeb. Mae Plant y Gofelir Amdanynt ag ADY yn cael cymorth amserol ac effeithiol. Ymgynghorir â phlant a phobl ifanc unigol a gwrandewir arnynt pan fydd penderfyniadau allweddol yn cael eu gwneud ynghylch: • eu dyfodol eu hunain; • darpariaeth leol; a • chynllunio a rheoli gwasanaethau newydd.
2.3.4	Gwaith y Cyngor gyda rhieni a gofalwyr plant a phobl ifanc ag ADY	Lle mae gwasanaethau yn cynnig cymorth uniongyrchol i rieni a gofalwyr disgyblion ag ADY, mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar y canlyniadau ar gyfer plant a phobl ifanc. Rhoddir cyngor a chymorth effeithiol a chydlynol ar gyfer rhieni a gofalwyr plant a phobl ifanc ag ADY, gan gynnwys gwasanaethau Partneriaeth a Chyfryngu Rhieni AAA. Mae'r Cyngor yn rhoi gwybodaeth glir sy'n galluogi rhieni a gofalwyr plant a phobl ifanc ag ADY i gael mynediad at y gwasanaethau y mae ar eu plant eu hangen. Mae gwasanaethau yn rhoi gwybodaeth glir i rieni/gofalwyr am gynnydd a chyflawniadau eu plentyn. Mae gwasanaethau yn cefnogi rhieni/gofalwyr ac yn eu helpu i gyfrannu at asesu anghenion eu plant. Cynorthwyir rhieni a gofalwyr plant a phobl ifanc ag ADY i gael asesiadau o'u hanghenion eu hunain lle bo'n briodol. Ymgynghorir â rhieni a gofalwyr a gwrandewir arnynt pan fydd penderfyniadau allweddol yn cael eu gwneud ynghylch: • dyfodol eu plentyn; • darpariaeth leol; a chynllunio a rheoli gwasanaethau newydd.
2.3.5	Gwerth am arian	Mae'r Cyngor yn cymharu ei gostau a chanlyniadau gyda'r rheiny o awdurdodau eraill ac mae'n gallu dangos bod plant a phobl ifanc ag ADY yn cyflawni canlyniadau da mewn

		perthynas â chostau'r gwasanaethau y mae'n eu darparu. Lle mae'r cyngor yn comisiynu cymorth ar gyfer disgyblion ag ADY gan asiantaethau allanol, mae'n gallu dangos bod canlyniadau yn dda a'i fod yn cyflawni gwerth am arian. Mae polisïau ariannu'r Cyngor yn annog ymyrraeth gynnar i fodloni anghenion disgyblion ag ADY. Mae'r Cyngor yn adolygu ei wasanaethau yn rheolaidd er mwyn sicrhau gwelliant parhaus gan roi ystyriaeth ddyledus i ddarbodusrwydd, effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd.

Cwestiwn 2: Pa mor effeithiol yw gwasanaethau a sut mae perfformiad yn cymharu, gan gynnwys gwerth am arian?

2.4 Mynediad a Lleoedd Ysgol

	Bydd arolygwyr yn arfarnu, yn graddio ac yn adrodd am:	Arddangos nodweddion da nodweddiadol:
2.4.1	Darpariaeth ystod a nifer priodol o leoedd mewn ysgolion	Mae digon o le yn y sectorau cynradd ac uwchradd, gan gynnwys addysg cyfrwng Cymraeg ac arbennig, ac nid oes unrhyw ysgol wedi'i gorlenwi'n sylweddol ac nid oes ganddo le sylweddol dros ben heb reswm da. Ceir systemau datblygedig a chywir ar gyfer darogan a monitro'r gofynion ar gyfer lleoedd ar draws pob cyfnod, gan gynnwys darpariaeth feithrin, arbennig a chweched dosbarth ac ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg. Mae hyn yn ystyried effaith y trefniadau cydweithredol ar gyfer dysgwyr 14-19 oed. Mae gan y Cyngor wybodaeth ddiweddar am allu ysgolion. Mae trefniadau clir ar gyfer adolygu rheolaidd, rhagweithiol o safonau addysg ar draws ysgolion yn yr awdurdod a defnyddir y wybodaeth hon wrth gynllunio ar gyfer ad-drefnu ysgolion. Mae'r awdurdod yn gwneud cynnydd da wrth: • leihau niferoedd mewn ysgolion gorlawn; • tynnu ymaith niferoedd sylweddol o leoedd dros ben; a • bodloni anghenion y gymuned leol. Mae meintiau dosbarthiadau'n bodloni gofynion statudol.

2.4.2	Cynllunio rheoli asedau a'r rhaglen cyfalaf addysg, (gan gynnwys iechyd a diogelwch).	Mae gan y Cyngor wybodaeth gywir a diweddar am gyflwr, digonolrwydd ac addasrwydd yr holl adeiladau ysgol. Mae'n gwneud defnydd da o wybodaeth am anghenion lleol, gan gysylltu'n effeithiol ar draws adrannau'r Cyngor, fel tai, cynllunio a'r gwasanaethau cymdeithasol. Mae gan y Cyngor syniad clir o'r adnoddau cyfalaf sydd ar gael iddo dros y tair blynedd nesaf, ac mae wedi ystyried yr holl ddewisiadau. Mae blaenoriaethau ar gyfer buddsoddi mewn adeiladau ysgolion ac adeiladau addysg eraill yn dryloyw ac wedi'u cytuno arnynt gydag ysgolion. Nodir cronfeydd ar gyfer atgyweiriadau a chynnal a chadw mewn cyllidebau ysgol yn glir, ac mae'r Cyngor yn sicrhau bod ysgolion yn ymgymryd â'u cyfrifoldebau mewn perthynas â'u safleoedd. Rheolir y rhaglen adeiladu yn effeithiol. Cwblheir prosiectau ar amser ac yn unol â'r gyllideb gydag ychydig iawn o amhariad ar ysgolion. Mae dylunio adeiladau yn ystyried gofynion statudol gan gynnwys rheoliadau adeiladau, mynediad i bobl anabl, effeithlonrwydd ynni a chynaliadwyedd. Mae gan y Cyngor bolisïau diffiniedig clir ar gyfer iechyd a diogelwch a diogeledd ysgolion a cheir dealltwriaeth glir o gyfrifoldebau priodol yr awdurdod a'r ysgolion eu hunain. Mae wedi sefydlu gweithdrefnau ar gyfer monitro a delio â meysydd perygl arwyddocaol. Gwneir atgyweiriadau brys yn brydlon a chânt eu trefnu'n hawdd. Mynychir argyfyngau y tu allan i oriau'n brydlon. Rhoddir cymorth uniongyrchol a dilynol da i'r pennaeth yn dilyn tanau, llifogydd a digwyddiadau mawr eraill. Cefnogir ysgolion yn dda wrth ddatblygu eu polisïau iechyd a diogelwch eu hunain. Mae gwybodaeth, arweiniad a hyfforddiant cynhwysfawr ar gael i ysgolion.
2.4.3	Derbyn i ysgolion	Mae awdurdodau derbyn lleol yn ymgynghori â'i gilydd ac yn cydlynu eu trefniadau yn effeithiol. Mae yna Fforwm Derbyniadau effeithiol.

		Mae'r wybodaeth (a ddylai gydymffurfio â Pholisi Iaith Gymraeg yr awdurdod ac a allai hefyd fod mewn ieithoedd cymunedol) a roddir i rieni ar dderbyniadau ysgolion yn dryloyw, yn ddigonol, yn glir ac yn ddealladwy ac yn bodloni'r Cod Ymarfer ar Dderbyniadau. Mae plant sy'n dod i fyw yn yr awdurdod yn ystod y flwyddyn ysgol, gan gynnwys plant y gofelir amdanynt, a phlant sy'n dychwelyd o'r ddalfa nad ydynt bellach ar gofrestr ysgol, yn cael darpariaeth yn ddi-oed mewn ysgolion sy'n bodloni eu hanghenion. Caiff dewisiadau rhieni eu bodloni i'r graddau mwyaf sy'n rhesymol. Ymdrinnir ag apeliadau yn gyflym ac yn deg i alluogi pob disgybl i gael cyfnod sefydlu yn eu hysgolion newydd yn ystod tymor yr haf cyn cymryd eu lleoedd ym mis Medi. Mae trefniadau'n cydymffurfio'n llawn â deddfwriaeth ac arweiniad sy'n gysylltiedig â chyfle cyfartal. Adolygir arweiniad yn y Cod Ymarfer ar Dderbyniadau Ysgolion yn rheolaidd ac mae wrthi'n ymateb i anghenion unigol. Ceir trefniadau effeithiol ar gyfer ailintegreiddio plant sydd wedi'u gwahardd o ysgolion eraill. Mae gan y Cyngor ymagwedd awdurdod cyfan at dderbyn disgyblion y tu allan i fannau derbyn arferol, y mae pob ysgol yn ei chefnogi.
2.4.4	Cludiant i'r ysgol a'r cartref	Mae polisi cymhwyster y Cyngor ar gludiant i'r ysgol a'r cartref yn bodloni gofynion statudol, mae'n ddiamwys, mae ar gael yn rhwydd i rieni a chaiff ei ddefnyddio'n gyson. Mae'r polisi'n sicrhau nad yw disgyblion sy'n cael cludiant am ddim yn cael eu hatal rhag mynychu gweithgareddau ar ôl ysgol. Mae polisi'r Cyngor yn ystyried polisïau eraill sy'n hyrwyddo diogelwch cymunedol, cynaliadwyedd a byw yn iach. Nid yw hyd arferol y daith unigol i'r ysgol ac oddi yno yn hwy na 45 munud ar gyfer disgyblion ysgolion cynradd ac un awr ar gyfer disgyblion ysgolion uwchradd, ac eithrio lle mae rhieni wedi dewis anfon eu plant i ysgolion y mae angen teithiau hwy arnynt.

		Mae gan y Cyngor drefniadau i sicrhau bod cerbydau ac offer cysylltiedig yn cydymffurfio â deddfwriaeth diogelwch. Caiff gyrwyr a chymdeithion eu recriwtio a'u hyfforddi yn unol â gofynion amddiffyn plant. Mae'r Cyngor wedi datblygu safonau gwasanaeth i sicrhau diogelwch, prydlondeb a dibynadwyedd, ac i leihau problemau bwlio a fandaliaeth ar gludiant o'r cartref i'r ysgol. Mae gan yr awdurdod god ymarfer ar gludiant ysgol sydd wedi bod yn destun ymgynghori â rhieni, disgyblion, ysgolion a gweithredwyr cludiant. Mae trefniadau ar gyfer ymdrin ag ymddygiad afreolus yn glir ac yn cael eu defnyddio'n gyson. Adolygir trefniadau cludiant o'r cartref i'r ysgol yn rheolaidd i sicrhau y caiff llwybrau eu cynllunio'n effeithlon a bod y dulliau caffael yn taro'r cydbwysedd iawn rhwng ansawdd y gwasanaeth a chost. Caiff y gyllideb cludiant o'r cartref i'r ysgol ei rheoli'n dda.
2.4.5	Cydlynu'r blynyddoedd cynnar (ar ôl i Ddeddf Plant 2004 gychwyn)	I'W YCHWANEGU
2.4.6	Gwerth am arian	Caiff cysylltiadau rhwng darparu lleoedd ysgol, cynllunio rheoli asedau, derbyniadau i ysgolion a chludiant o'r cartref i'r ysgol eu hadolygu'n rheolaidd ac maent yn taro cydbwysedd ymwybodol rhwng ansawdd yr addysg, cefnogi dewis rhieni a chost. Mae'r Cyngor yn cymharu ei gostau a'i ganlyniadau gyda'r rheiny o awdurdodau eraill. Mae'r Cyngor yn adolygu ei wasanaethau'n rheolaidd er mwyn sicrhau gwelliant parhaus gydag ystyriaeth ddyledus i ddarbodusrwydd, effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd.

Cwestiwn 2: Pa mor effeithiol yw gwasanaethau a sut mae perfformiad yn cymharu, gan gynnwys gwerth am arian?

2.5 Gwasanaethau cymorth

	Bydd arolygwyr yn arfarnu, yn graddio ac yn adrodd am:	Arddangos nodweddion da nodweddiadol:
2.5.1	Gwasanaethau i gynorthwyo ysgolion	Mae'r gwasanaethau a gynigir yn annibynnol: nid oes rhaid i ysgolion sy'n prynu un gwasanaeth brynu rhai eraill. Cyflwynir manylion y gwasanaethau a gaiff eu cynnig neu'u brocera gan y Cyngor yn dda. Mae'r gwasanaethau yn hawdd eu harchebu, boed fel pecyn integredig neu fel elfennau unigol. Mae gan ysgolion yr holl wybodaeth y mae arnynt eu hangen i arfer dewis dros y lefel, y maint a'r swm a gaiff eu gwario ar wasanaethau. Darperir gwybodaeth mewn ffordd y gall ysgolion fonitro'r gwasanaeth y maent yn ei gael. Mae cytundebau lefel gwasanaeth a/neu gontractau yn cynnwys safonau gwasanaeth clir a hysbysiadau rhybudd terfynu ar gyfer y gwasanaethau a gaiff eu darparu neu'u brocera gan y Cyngor. Mae monitro'r Cyngor yn dangos bod safonau gwasanaeth wedi'u bodloni yn y rhan fwyaf o achosion. Eir i'r afael ag unrhyw fethiannau neu aneffeithlonrwydd yn gynnar. Mae prisiau gwasanaethau mewnol yn gystadleuol, ac yn gysylltiedig â chostau'r ddarpariaeth. Mae trefniadau anfonebu'n gweithio'n llyfn mewn ffordd fasnachol arferol. Lle darperir gwasanaeth sy'n amharu ar ddarpariaeth statudol gan gyflenwr allanol, mae gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith i fonitro'r ddarpariaeth. Mae'r Cyngor yn cefnogi ysgolion sy'n dymuno caffael gwasanaethau eu hunain trwy ddarparu manylebau enghreifftiol a chynnig cymorth ansawdd uchel i gleientiaid wrth reoli contractau.
2.5.2	Gwasanaethau corfforaethol ar gyfer addysg, gan gynnwys ysgolion	(a) **Cyllid** Mae systemau ariannol y Cyngor yn gweithio'n ddibynadwy, ac yn cysylltu'n effeithiol â systemau ysgolion. Mae gwybodaeth yn gywir ac mae ysgolion yn teimlo'u bod yn cael eu cefnogi'n dda. Mae cysoni ariannol, lle bo angen, yn

		electronig ac yn gweithio'n llyfn. Caiff gwallau eu datrys yn rhwydd ac yn syth. Caiff ysgolion eu cefnogi i reoli eu cyllidebau eu hunain a chynigir meddalwedd a hyfforddiant addas iddynt i'w modelu. Mae arweiniad a hyfforddiant ar gael sy'n annog ysgolion i seilio penderfyniadau ar ganlyniadau addysgol dymunol, ac i ystyried arfer cyflogi dda. Mae gan ysgolion fynediad parod at gyngor unigol ansawdd uchel ar osod cyllidebau a rheolaeth ariannol. Mae rheolwyr y gwasanaeth addysg yn teimlo'u bod yn cael eu cefnogi'n dda mewn rheolaeth ariannol ac y gallant ragweld a rheoli eu cyllidebau neu gyfrifon masnachu yn weithgar ac yn effeithiol trwy'r flwyddyn. (b) **Adnoddau Dynol** Mae rhannu cyfrifoldebau ar gyfer staff rhwng y Cyngor ac ysgolion yn glir ac yn cael ei ddeall gan aelodau, swyddogion, cyrff llywodraethol a gweithwyr. Mae gweinyddwyr yr adran addysg yn ddibynadwy, mae cofnodion staff canolog yn gywir ac wedi'u gwirio'n rheolaidd yn erbyn cofnodion ysgol. Mae'r Cyngor yn llwyddiannus wrth sicrhau cyflenwi athrawon a staff cymorth dysgu, a'u hansawdd. Cefnogir recriwtio yn dda. Dosberthir contractau cyflogaeth o fewn y cyfnod amser statudol ar bob adeg. Mae cysylltiadau personél â'r gyflogres yn ddibynadwy ac yn gywir. Caiff unrhyw wallau eu cywiro'n brydon ac yn llyfn. Mae ysgolion yn cael mynediad hawdd at ystod o bolisïau model diweddar yn ymdrin â materion fel recriwtio, cydraddoldebau, tâl, disgyblaeth, cwynion, gallu, salwch ac absenoldeb arall, colli gwaith ac ymddeol. Cefnogir gwaith achos yn dda ac mae cyngor yn ddibynadwy yn dechnegol. Mae tribiwnlysoedd diwydiannol yn achosion prin ac mae'r Cyngor yn llwyddiannus yn y rhan fwyaf ohonynt. Eir ar drywydd achosion gallu gydag egni priodol. Mae'r hinsawdd cysylltiadau diwydiannol yn gadarnhaol, gyda sianelau cyfathrebu effeithiol gydag undebau perthnasol. Cynigir hyfforddiant fel mater o drefn i benaethiaid a llywodraethwyr ar gyfrifoldebau cyflogwyr. Caiff y defnydd o hyfforddiant ei fonitro, gydag ymyrraeth lle bo angen.

		Mae'r Cyngor yn monitro perfformiad ysgolion mewn arfer cyflogaeth statudol ac yn ymyrryd mewn cyfrannedd wrthdaro i lwyddiant. Mae'r Cyngor yn cael cyngor da ar reolaeth strategol Adnoddau Dynol, gan gynnwys rhybuddio ymlaen llaw am newidiadau statudol a'u goblygiadau, recriwtio a materion y llafurlu a gwybodaeth wedi'i dadansoddi'n dda am berfformiad ysgolion yn yr ardal hon. Ceir cymorth da ar gyfer rheolwyr gwasanaeth wrth ymdrin â materion cyflogaeth unigol, ac ymdrinnir ag achosion na ellir eu datrys mewn ffordd ataliol yn gyson, yn deg, yn gadarn ac yn brydlon. (c) **TGCh** Mae strategaeth Cyngor effeithlon ac effeithiol ar waith ar gyfer rheoli data perfformiad disgyblion a staff, safleoedd a gwybodaeth ariannol. Ceir cyfathrebu electronig effeithiol, wedi'i reoli'n dda rhwng ysgolion, a rhwng ysgolion a'r Cyngor. Caiff cyfathrebiadau'r Cyngor ag ysgolion eu blaenoriaethu'n effeithiol a'u cyflwyno'n dda. Mae'r Cyngor yn ymateb yn brydlon i gyfathrebiadau gan ysgolion. Cefnogir ysgolion yn dda mewn prynu ac mewn cymorth technegol. Ceir platfformau caledwedd a meddalwedd cyffredin ar draws y Cyngor, ond ni chaiff eitemau ansafonol eu hatal oni bai mewn achosion lle byddent yn creu problemau ledled yr awdurdod. Mae amserau ymateb ar gyfer cyflwyno atebion technegol a/neu atgyweiriadau yn gyflym ac nid ydynt yn peryglu cyflwyno gwasanaeth gweinyddol neu addysgol mewn ysgolion. Caiff ysgolion arweiniad ysgrifenedig ac ar sgrin effeithiol a chefnogaeth llinell gymorth effeithiol sy'n ymestyn y tu hwnt i oriau ysgol. Gallant gael mynediad at hyfforddiant effeithiol yn lleol ar bob agwedd ar systemau caledwedd a meddalwedd safonol, pan fydd eu hangen arnynt. Mae gwefan y Cyngor yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol i'r cyhoedd am wasanaethau addysg fel derbyniadau ysgol, grantiau, cludiant a gwasanaethau ar gyfer dysgwyr ag anghenion addysgol arbennig. Gellir cael mynediad hawdd at ddogfennau cyhoeddus allweddol fel cynlluniau addysg statudol a'r datganiad cyllideb addysg, ac maent yn gyfoes. Ceir cysylltiadau defnyddiol, e.e. ag adroddiadau arolygu ar wefan gwasanaethau addysg y Cyngor a'i ysgolion. Gall y cyhoedd gael mynediad at wasanaethau trwy'r wefan ac mae'r prosesau wedi'u rheoli'n dda ac yn effeithiol. Ymatebir i ymholiadau e-bost gan aelodau'r cyhoedd o fewn cyfnod rhesymol o amser.

		Ceir mewnrwyd Cyngor a ddefnyddir yn dda sydd ar gael i ysgolion sy'n cynnwys ystod lawn o ddogfennau gweinyddol a pholisi cyfeirio diweddar. Mae cysylltiadau â TGCh y cwricwlwm, yn enwedig am ddata cyrhaeddiad disgyblion a'i ddefnydd, yn effeithiol ac yn gynhyrchiol.
2.5.3	Gwasanaethau yn gysylltiedig ag eiddo	Caiff cyfrifoldebau priodol ysgolion a'r Cyngor mewn perthynas â gwaith adeiladu a chynnal a chadw eu nodi'n ddiamwys. Monitrir cydymffurfiaeth y ddau barti fel ei gilydd yn effeithiol. Mae ysgolion yn cael mynediad at gyngor technegol effeithiol gan syrfewyr cymwys ar flaenoriaeth, rhaglennu, gosod contractau, goruchwylio contractau a rheoli taliadau. Mae ysgolion yn ymwybodol o sut bydd eu blaenoriaethau'n cael eu bodloni ac maent yn teimlo bod eu cyngor technegol yn cael ei lywio gan flaenoriaethau addysgol a'u bod yn cynrychioli gwerth da am arian. Mae ymgynghorwyr technegol yn annog ysgolion i reoli eu hasedau'n dda ac i gysylltu eu cynlluniau eu hunain â chynlluniau rheoli asedau'r awdurdod. Bydd ymgynghorwyr yn rhagweithiol wrth frocera cynlluniau a ariennir ar y cyd ac yn rhoi cyngor ar geisio am gyfalaf. Mae contractau cynnal a chadw ar gael i ysgolion ymuno â nhw, ond nid yw'n ofynnol iddynt ymuno â nhw. Caiff contractau eu haddasu'n dda i anghenion ysgolion ac maent yn rhoi iddynt yn unigol werth da am arian a hyblygrwydd. Rheolir prosiectau adeiladu yn effeithiol. Mae atgyweiriadau brys yn brydlon ac yn cael eu trefnu'n dda. Mynychir argyfyngau y tu allan i oriau yn brydlon; mae yna gymorth uniongyrchol a dilynol da i ysgolion yn dilyn tanau, llifogydd a digwyddiadau mawr eraill.
2.5.4	Prydau ysgol	Caiff cyfrifoldebau statudol y Cyngor, gan gynnwys trefniadau ar gyfer prydau ysgol am ddim a chynnal a chadw ceginau a chyfarpar, eu cyflawni'n dda. Mae problemau'n brin ac ymdrinnir â nhw'n brydlon. Mae unrhyw gontract(au) canolog sydd ar gael i ysgolion yn hyblyg i ddymuniadau ysgolion ac yn rhoi gwerth da am arian. Mae cymorth cleientiaid rhagweithiol ar gael i ysgolion sy'n dymuno gwneud eu trefniadau eu hunain. Mae problemau'n brin ac ymdrinnir â nhw'n brydlon. Mae cyngor da ar gael yn rhwydd ar faeth a dewisiadau arlwyo.

		Mae gan yr AALl drefniadau i fonitro ysgolion i sicrhau eu bod yn bodloni eu dyletswyddau statudol ar gyfer hylendid, safonau maethol ac iechyd a diogelwch. Mae ymyrraeth, pan fo angen, yn brydlon ac yn effeithiol. Mae ansawdd prydau ysgol yn dda ac mae'n cefnogi byw'n iach
2.5.5	Gwerth am arian	Mae'r Cyngor yn cymharu ei gostau a'i ganlyniadau â rheiny o awdurdodau eraill. Mae'r Cyngor yn adolygu ei wasanaethau yn rheolaidd er mwyn sicrhau gwelliant parhaus gydag ystyriaeth ddyledus i ddarbodusrwydd, effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd.

Cwestiwn allweddol 3: Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth strategol?

Dylai'r cwestiwn hwn gael ei gymhwyso i'r Cyngor cyfan ac i feysydd penodol lle bo'n briodol.

	Bydd arolygwyr yn arfarnu, yn graddio ac yn adrodd am:	Arddangos nodweddion da nodweddiadol:
3.1	Ansawdd yr arweinyddiaeth a ddarperir gan aelodau etholedig	Mae gan aelodau etholedig weledigaeth glir ar gyfer rôl addysg (*neu'r maes dan sylw*). Mynegir y weledigaeth yn dda mewn dogfennau cyhoeddedig, ac fe'i hadlewyrchir yn y strategaeth gymunedol, cynlluniau corfforaethol a chynllunio strategol gwasanaethau addysg. Mae gan aelodau ddealltwriaeth glir o rôl strategol y Cyngor (*yn gyffredinol, ac mewn perthynas â meysydd penodol*) a dyletswyddau statudol yng nghyd-destun hunanreoli gan ysgolion. Mae aelodau'n dylanwadu'n llwyddiannus ar bartneriaid allweddol i gefnogi eu blaenoriaethau a'u strategaethau. Mae'r arweinyddiaeth wleidyddol yn gwneud penderfyniadau anodd pan fydd angen, yn dilyn proses drylwyr ac agored o archwilio ac ymgynghori sy'n gyson ag amcanion strategol.
3.2	Ansawdd yr arweinyddiaeth a ddarperir gan uwch swyddogion; ac	Mae arweinyddiaeth uwch swyddogion yn effeithiol ac yn bwrpasol wrth sicrhau: • darpariaeth sy'n bodloni anghenion lleol; • darpariaeth sy'n canolbwyntio ar y dysgwr; • gwella ysgolion • lles plant a phobl ifanc;

		• cynhwysiad; ac • effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd adrannol. Mae uwch swyddogion yn ymateb yn briodol i fentrau newydd ac yn arwain datblygiadau trwy ymgynghori ag ysgolion a rhanddeiliaid eraill. Mae perthnasoedd ag ysgolion yn dda; mae ymgynghori, cyfathrebu a bwriadau'n glir, yn dryloyw ac yn arwain at ddealltwriaeth a rennir. Gall yr awdurdod weithredu fel 'cyfaill beirniadol'. Ceir ymdeimlad da o bartneriaeth gydag ysgolion. Mae ysgolion yn parchu ac yn ymddiried mewn uwch swyddogion sy'n gwrando ac yn ystyried eu safbwyntiau a'u cyngor yn llawn. Mae swyddogion yn rhoi cyngor clir a chryno i aelodau etholedig yn seiliedig ar: • ddadansoddiad gwybodus o ofynion statudol; • dewis gwrthrychol, cytbwys o ddangosyddion perfformiad; • arfarniad trylwyr o'r sefyllfa fel y mae ac effaith polisïau cyfredol; ac • ystyriaeth o oblygiadau'r polisïau i'r dyfodol. Mae swyddogion yn cynghori aelodau mewn da bryd i alluogi ar gyfer datblygu polisïau tymor hir.
3.3	Ansawdd a phriodoldeb aelodaeth a gweithredoedd wrth weithio mewn partneriaeth	Mae gan y Cyngor ddealltwriaeth glir o fanteision a chostau gweithio mewn partneriaeth. Mae'r Cyngor yn gwneud cyfraniad da at sicrhau bod partneriaethau lleol yn gweithio'n effeithiol ac yn arwain at flaenoriaethau a rennir ar gyfer addysg. Caiff partneriaethau lle mae gan y Cyngor neu ei adran addysg rôl arweiniol, eu harwain a'u rheoli'n dda ac maent yn effeithiol. Mae partneriaethau'n cynnig yn llwyddiannus am nawdd ychwanegol a/neu geisiadau cydlynus gan aelodau unigol er mwyn hyrwyddo nodau'r bartneriaeth ac osgoi dyblygu. Mae'r Cyngor yn cydweithredu'n effeithiol gyda phartneriaid mewn perthynas â darpariaeth addysg a hyfforddiant 14-19, a gweithgareddau ar gyfer pobl 11-25 oed. Mae gwaith partneriaeth lleol neu ar lefel ysgol wedi arwain at effaith fanteisiol sylweddol ar gyflawniadau disgyblion lle roedd ei angen fwyaf.

		Ceir strwythurau addas i sicrhau cylchoedd synhwyrol o gyfarfodydd sy'n osgoi dyblygu. Ceir gweithio traws gyfarwyddiaeth effeithiol.

Cwestiwn allweddol 4: Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr ar bob lefel yn monitro, yn arfarnu ac yn gwella gwasanaethau?

Dylai'r cwestiwn hwn gael ei gymhwyso i'r Cyngor cyfan ac i feysydd penodol lle bo'n briodol.

	Bydd arolygwyr yn arfarnu, yn graddio ac yn adrodd am:	Arddangos nodweddion da nodweddiadol:
4.1	Yn gwneud trefniadau priodol ar gyfer sicrhau gwelliant parhaus gan roi ystyriaeth ddyladwy i ddarbodusrwydd, effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd	Mae aelodau a rheolwyr yn gwneud defnydd effeithiol a rheolaidd o ddangosyddion perfformiad, gan gynnwys gwybodaeth ariannol, i fonitro cynnydd wrth weithredu cynlluniau. Ceir trefniadau priodol ac amserol ar gyfer casglu dangosyddion perfformiad. Lle bo angen, mae monitro yn arwain at ddiwygiadau mewn targedau a strategaethau. Mae gan yr awdurdod hanes da o welliant mewn perthynas â thargedau ac amcanion addysgol. Cynhelir adolygiadau rheolaidd gyda her drylwyr i'r diben, cymharu ag eraill, profion cystadleurwydd ac ymgynghori sy'n addas at y diben. Mae adolygiadau yn cynnwys her allanol briodol. Mae'r Cyngor yn ymateb yn brydlon ac yn effeithiol i gwynion. Ceir system rheoli perfformiad effeithiol lle mae aelodau etholedig ac uwch reolwyr yn monitro cynnydd yn erbyn cerrig milltir yn rheolaidd ac yn cymryd camau unioni priodol.
4.2	Yn sicrhau bod aelodau etholedig yn chwarae rôl briodol mewn rheoli perfformiad	Mae gan aelodau weithdrefnau clir ar gyfer archwilio penderfyniadau polisi yn rheolaidd ac mae'r holl bolisïau allweddol yn destun archwilio effeithiol a democrataidd. Mae aelodau'n monitro ac yn arfarnu gwaith y gwasanaeth addysg yn systematig ac yn agored.

		Mae aelodau'n rhoi ffocws penodol ar agweddau y mae angen eu gwella. Mae hyn wedi arwain at ddiwygiadau polisi lle bo'n briodol.
4.3	Yn gweithredu gweithdrefnau hunanarfarnu yn effeithiol, ac yn meddu ar ddealltwriaeth dda o'i gryfderau a'r meysydd i'w gwella	Mae elfennau addysgol unrhyw ddadansoddiad awdurdod cyfan yn drylwyr ac yn gynhwysfawr. Mae arweinwyr a rheolwyr yn pennu trefniadau hunanarfarnu sy'n gynhwysfawr, yn systematig ac yn seiliedig ar dystiolaeth uniongyrchol. Mae darparwyr gwasanaeth yn deall ac yn cymryd rhan yn llawn yn y trefniadau hunanarfarnu. Cymerodd defnyddwyr gwasanaeth, partneriaid a rhanddeiliaid eraill ran yn llawn ac ymgynghorwyd â nhw, ac aseswyd perfformiad presennol yn wrthrychol yn erbyn cymaryddion priodol. Mae hunanarfarnu'r Cyngor yn gywir.
4.4	Yn meddu ar hanes da o sicrhau gwelliannau	Mae meysydd gwaith y Cyngor a dargedwyd eisoes yn dangos arwyddion clir o welliant.